# papurFAMA

RHIF 415

Ebrill - Medi 2020

papurfama@hotmail.co.uk



papurFAMA

**GOLYGYDDION**
**Harri Bryn Jones** - Maes Gwern, 1 Ffordd Hengoed, Yr Wyddgrug CH7 1QD 756606

**Marc a Buddug Jones** - 4 Y Gilfach, Glynteg, CJH7 1XJ *marcjones06@aol.com*

**Gareth Victor a Bethan Williams** - 16 Maes Bodlonfa, Yr Wyddgrug. CH7 1DR ffon757874 *gareth.bethan@btinternet.com*

Hoffwch ein tudalen ar Facebook *@papurfama*

**CADEIRYDD**
**Laura Edwards** -'Eyton Hurst', Lôn Bryn Coch Yr Wyddgrug CH7 1PP Ffôn: 01352 754011 *ysgrifenlaura@gmail.com*

**IS-GADEIRYDD**
**Gareth Victor Williams**
*gareth.bethan@btinternet.com*

**YSGRIFENNYDD**
**Catrin Wilde** - *catrin.wilde@hotmail.co.uk*

**IS-YSGRIFENNYDD**
**Carys Gwyn**
*9 Glyn Teg, Yr Wyddgrug.*
*Carysgwyn@btinternet.com*

**TRYSORYDD**
**Owen Gwyn Ifans -** *ogpapurfama@gmail.com*

**DOSBARTHWR**
**Nesta Gibson**
*i608@btinternet.com*

**Sian Sparrow**
*siane.sparrow@gmail.com*
*01352 754352*

**POSTMON Y PAPUR**
**Aled & Helen Jones** - Ardwyn, 18 Rhodfa'r Mynydd, Yr Wyddgrug CH7 1GQ

**HYSBYSEBION**
**Trefor Jones** - 9, Llys y Fron, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, CH7 1QZ 757375
*jones.llysyfron@outlook.com*

**CYSODI**
**Ioan Huws** -
07732868056
+31 622807415
*ioanhuws@me.com*

CYMRAEG

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

*Argraffwyd gan PRINTCENTRE CYMRU*
*Stâd Ddiwydiannol Bromfield, Yr Wyddgrug 700246.*

| | |
|---|---|
| **GOLYGYDD Y MIS** | *Gareth Victor a Bethan Williams* |
| **Y RHIFYN NESAF** | *2il o Hydref (gobeithio)* |
| **GOLYGU** | *Harri Bryn Jones* |
| **CYFRANIADAU I LAW** | *21ain o Fedi* |
| **A THRWY EBOST ERBYN** | *23ain o Fedi* |

Cyfraniadau sydd eisioes wedi eu teipio mewn atodiad ffeil word neu lluniau trwy ebost at
***papurfama@hotmail.co.uk***
Erfyniwn ar ein cyfrannwyr i'n cefnogi trwy gadw at y dyddiad uchod. Ni ellir sicrhau cynnwys deunydd sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad a nodir. Gwerthfawrogwn gyfraniad o £5 am hysbysebion personol neu am ddiolchiadau.Trwy law y trysorydd os gwelwch yn dda.

# SIOP GYMUNEDOL YR WYDDGRUG

(Ar agor dros dro – yn ystod yr agyfwng CoVid -19)

**CANOLFAN DANIEL OWEN**
10.00yb - 3.00yp Llun -Sadwrn.

Bwydydd sylfaenol megis bara; llefrith; bacwn, wyau; caws; ysgytlaeth; llysiau a ffrwythau.

Dosbarthiad am ddim i drigolion
Yr Wyddgrug a gweithwyr allweddol yn
Yr Wyddgrug.

Gellir archebu drwy ffonio 01352 754792 neu e-bostio: danielowencmold@hotmail.com

Mae'r Siop Gymunedol yn weithgarwch di-elw drwy gydweithrediad Gareth Williams, sy'n dosbarthwr llaeth lleol a Chymdeithas Gymunedol Daniel Owen. Yma i gefnogi ein cymuned leol.

papur FAMA

# Rhagair

**Ychydig feddyliom pan ddaeth y rhifyn Mawrth o Bapur Fama i'n dwylo y byddem yn y sefyllfa yr ydym fel gwlad ac yn wir fel byd. Ar chwap cawsom ein hunain mewn sefyllfa cwbl annisgwyl a rhyfeddol.**

Bellach trwy ddulliau technoleg yr ydym yn gweld a sgwrsio â'n gilydd, ac yn annisgwyl ar y we y mae Papur Fama wedi ei gyhoeddi'r mis hwn! Gobeithio y gwnewch fwynhau rhifyn sy'n llawn lluniau lliw! Gallem, fel y gwnaeth llawer i Bapur Bro fod wedi peidio cyhoeddi rhifyn Ebrill, ond teimlem o ran parch i'r rhai a gyfrannodd, a gyda thechnegau newydd wrth law fod yma gyfle i arbrofi. Cymeraf y cyfle hon i ddiolch i gwmni Aura (Gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Y Fflint) a Golwg360, am gynnig lloches i ni ar eu Wefan ac i'n golygydd, Gareth Victor Williams am gyd – gordio'r trefniadau ar ein rhan.

Gan nad oes unrhyw gymdeithas, na Chapel yn cyfarfod a phob Eisteddfod, ymarfer, pwyllgor a Sioe wedi eu canslo a hyd yn oed yr ysgolion, llyfrgelloedd a siopau wedi cau, ni fyddai modd na phwrpas cyhoeddi rhifyn wedi hwn tan i bethau ddychwelyd yn ôl i ryw fath o normalrwydd. Fel y gwelwn bethau ar hyn o bryd efallai mai ym mis Hydref y bydd rhifyn nesaf o'r papur, ond pwy a wyr gyda phethau yn newid mor sydyn. Wrth gwrs mae'n ofid gennym am hyn, ond rwy'n siŵr eich bod yn deall y sefyllfa yr ydym ynddi.

Yn y cyfamser, ac os ydych yn chwilio am 'rywbeth i'w wneud, beth am fynd ati i sgwennu tamaid ar gyfer y Papur, boed yn hanesyn difyr o'r gorffennol, yn erthygl am lefydd diddorol, yn y fro hon neu arall, yn rysáit teuluol, neu unrhyw beth dybiwch allai fod o ddiddordeb. (Rhyw 400 gair yw hyd erthygl llond tudalen). Fe fyddai'n braf iawn petai gennym gasgliad o storiâu y gallem droi atynt wedi i'r holl helbul yma ddod i ben.

A tan ddaw hyn i ben carem ddymuno yn dda i chi gyd yn ystod y cyfnod pryderus hwn, cadwch yn ddiogel.

Harri Bryn Jones
(Golygydd Mis Hydref)
Ar ran Pwyllgor Papur Fama.

**CARPEDI GROSVENOR**

**CARPEDI-DODREFN-RYGIAU**

12 Stryd Wrecsam
Yr Wyddgrug
CH7 1ES

01352 700002

Gwasanaeth di-guro trwy'r Gymraeg
*www.grosvenorcarpetsmold.co.uk*

# Merched y Wawr

Cynhalwyd cyfarfod Merched y Wawr ar Fawrth 10fed yng Nghapel Bethel. Ar ddechrau'r cyfarfod cytunwyd i enwebu Geunor Roberts yn Is-Lywydd Cenedlaethol 2020-2022 a Myfanwy Harper yn Is-Ysgrifennydd . Diolchwyd i Menna Evans a Gloria Davies am baratoi'r baned ar y diwedd ac i Gloria am y wobr i'r raffl.

Atgoffwyd yr aelodau am y llu o weithgareddau amrywiol oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer yn ystod y misoedd nesaf ond bellach, o ganlyniad i'r datganiadau a'r cyngor diweddaraf ar haint y coronafeirws, ni fydd yn bosibl cynnal unrhyw weithgaredd. Roedd yr aelodau yn edrych ymlaen at groesawu Eurgain Jones o ardal y Bala atynt i sgwrsio am "Foddi Capel Celyn" ym mis Mai ond yn hytrach, bellach gobeithir ei gwahodd yn ystod y flwyddyn nesaf. Daeth y swyddogion i'r casgliad byddai canslo, yn hytrach na gohirio, Cinio'r Dathlu yn Oriel House ym mis Mehefin yn ddoeth gan fod cymaint o ansicrwydd ynglŷn â phryd bydd pethau'n dychwelyd i normalrwydd.

Ar nodyn ysgafnach croesawyd y Dysgwyr atom yn y cyfarfod diwethaf a chafwyd noson hyfryd yng nghwmni tair merch dalentog o'r un teulu. Cyflwynodd Glesni Williams y dair ohonynt sef Mair Selway , sy'n aelod ffyddlon o Ferched y Wawr, ei mherch Buddug Selway Jones a'i ŵyres Marged Selway Jones. Marged oedd prif wraig wadd y noson gyda chymorth nain yn cyfeilio ar yr allweddell, cymorth mam i ganu deuawd ac hefyd cyfraniad gwerthfawr dad (Marc Jones) yn edrych ar ôl yr ochr dechnolegol!

Roedd Cangen Yr Wyddgrug o Ferched y Wawr wedi cyfrannu'n ariannol tuag at daith Marged i Batagonia, mis Hydref diwethaf, ar yr amod ei bod yn dod i gynnal noson Gymreig ei naws i'r gangen, yn sôn am ei phrofiadau ym Mhatagonia a'n diddori gydag ambell gân. Wedi diolch i'r aelodau am eu cyfraniad tuag at y daith, fe ddangosodd sleidiau a sgwrsio am y lleoedd bu'n ymweld â hwy megis Coleg Cymraeg Camwy yn y Gaiman, Porth Madryn lle glaniodd y Mimosa a'r ogofau arhosodd y Cymry cyntaf ynddynt. Profiad a hanner oedd gweld y pengwiniaid yn Punto Tombo medde hi. Braf hefyd oedd clywed plant Ysgol yr Hendre ac Ysgol Feithrin y Gambia yn siarad yn Gymraeg ac yn morio canu Hen Wlad Fy Nhadau gan eirio mor glir. Bu Marged a'i chyd-deithwyr yn cynnal sesiynnau dawnsio, canu a chwarae gemau gyda'r disgyblion yn yr ysgo-





lion, gan gynnwys Ysgol y Cwm yn Nhrefelin, yn ogystal â llawer o gyngherddau yma ac acw. Un bore fe aeth hi i ymweld â'r capel Cymraeg yn Esquel a dyfalwch llun pwy welodd hi mewn llyfr yno – ei nhain! Un o hoff weithgareddau Marged oedd rafftio i lawr afon ym Mharc Cenedlaethol prydferth y Corcovado ac hefyd gweld caeau a chaeau o diwlips lliwgar i gyd mewn rhesi. Braf oedd gweld pa mor frwdfrydig oedd y Cymry ym Mhatagonia dros eu hiaith.

Mwynhawyd yr adloniant cerddorol a gafwyd bob yn ail â'r sgwrsio yn fawr iawn gan bawb. Canodd Marged unawdau hyfryd megis Dagrau'r Glaw, Cân y Coridorau, Cana o Dy Galon yn ogystal â deuawd swynol gyda ei mham. Roedd yn amlwg fod ganddi feistrolaeth dda ar chwarae'r allweddell hefyd. Noson fendigedig o adloniant pur!

Diolchwyd i Marged a'r teulu gan Glesni Williams. Gobeithio bydd y sefyllfa anodd sydd yn y wlad ar hyn o bryd wedi gwella erbyn mis Medi ac y gellir cyfarfod unwaith eto. Cymerwch ofal i gyd!

Gweler llun y dysgwyr gyda Glesni Williams, Cadeirydd y noson a Marged, Buddug a Mair Selway fu'n ein diddanu gyda llun arall o'r rhai fu'n gwau siwmperi i fabanod Affrica. Dyma'r cefndir

Mae rhai o aelodau Merched y Wawr wedi bod yn brysur yn gwau siwmperi a hetiau beanie i fabanod a elwir yn fabanod pysgod a sglodion. Mae nifer o fabanod newydd-anedig yn Affrica yn dioddef o Aids, ac maent mor dlawd fel eu bod yn cael eu hanfon adref o'r ysbyty mewn papur newydd, fel pysgod a sglodion nifer o flynyddoedd yn ôl bellach. Maent yn cael eu gwau mewn lliwiau tywyll gan nad ydynt bob amser yn cael eu golchi. Mae'r siwmperi a'r hetiau yn bwysig iawn gan fod y nosweithiau yn medru bod yn oer a dyma'r unig ddillad sydd ganddynt.

LEWIS GLASS



BWCLE

Uned 11, Pinfold, Bwcle. CH7 3PL

Darparwn FFENESTRI, DRYSAU PVCu a GWAITH ARGYFWNG o safon uchel i'ch cartrefi a'ch busnes.

Ffôn: 01244 549449
E-bost: *lewisglass549449@aol.com*
*www.lewisglassltd.co.uk*

FENSA

GWASANAETH LLEOL GAN HOGIA LLEOL ERS 1982

# Rhaglen Radio 'Hawl i Holi'

**Ar ddechrau mis Mawrth fe gafwyd drafodaeth difyr yn fyw ar BBC Radio Cymru yng nghwmni panel o wleidyddion a phobl dinesig.**

Darlledwyd y rhaglen o Theatr Clwyd efo oddeutu 50 o bobl lleol yn y gynilleidfa gyda Dewi Llwyd yn Cadeirio ac yn arwain y drafodaeth. Fe gafwyd cwestiynau ar bynciau llosg a chyfoes megis HS2, Addysg Gymraeg yn Sir Y Fflint, y Feirws COVID – 19 sy'n heintio bobl y byd a chafwyd sgwrs ar y syniad o orfod talu i weld gemau'r Chwech Gwlad. Da oedd gweld nifer o bobl ardal Yr Wyddgrug a'r cyffiniau yno i herio'r panel ac i godi cwestiynau a chynnig sylwadau.

Ar y panel yr oedd Nia Wyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Maes Garmon), Dewi Llwyd (Cadeirydd), Catrin Elis Williams (Meddyg Teulu), Llyr Gruffydd (AC Gogledd Cymru ar ran Plaid Cymru), Jane Dodds (Arweinydd Y Democratiaid Rhyddfrydol yma yng Nghymru) ac Aled Davies (Arweinydd Cyngor Sir Powys, ar ran y Ceidwadwyr). Diolch i'r Cyngh Aled Davies am ddod i'r adwy ar ol i Rob Roberts (AS, Delyn) ymddiheuro am fethu mynychu, gweler llun sy'n dangos aelodau'r panel.






## NERCWYS

Y Gymdeithas Lenyddol

Dyma ni wedi dirwyn i ben rhaglen y Gymdeithas Lenyddol eleni, ond yn anffodus heb gynnal ychydig o'n cyfarfodydd oherwydd sefyllfa Coronofeirws (COVID – 19). Nodwch os gwelwch yn dda fod CYNGERDD Y PASG gyda Chôr Bro Aled WEDI'I OHIRIO. Un noson llwyddwyd ei gynnal oedd Swper Gŵyl Dewi a gynhaliwyd ar Nos Wener, Mawrth 6ed, lle cawsom flasu swper o gawl cennin a chacennau cri. Darparwyd adloniant bendigedig gan driawd o bobl ifanc, Ynyr, Gwenan ac Osian, a'u cyfeilyddes ac arweinyddes. Braf oedd eu croesawu. Diolch i bawb fu'n gyfrifol am goginio a gweini, ac am y cennin Pedr. A dyna ni am y tro yn y cyfnod anarferol hyn. Anfonwn ein cofion annwyl at bawb sy' wedi profi profedigaeth yn ddiweddar neu sy'n sâl. Yn y cyfamser diolch i'r swyddogion am eu gwaith ac edrychwn ymlaen at anfon newyddion nes ymlaen yn y flwyddyn pan fydd y Gymdeithas yn ail gychwyn yn yr Hydref.

## Ail – Gylchu Yn Nercwys

Rydym wedi hen arfer â rhoi cynnwys ein biniau brown a du; bagiau yn dal papur, cardfwrdd, tuniau a phlasig a photeli gwydr mewn bocsus glas allan i'w casglu gan y cyngor sir yn wythnosol neu'n bythefnosol.

Ond beth am hen garpedi, offer trydan, setiau teledu, tuniau paent, oergelloedd a rhewgelloedd? Cewch fynd â'r rhain a llu o bethau eraill sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes i ganolfan ail-gylchu'r cyngor yn Nercwys. Ac mae croeso i'r hyn sy'n cael ei gasglu'n reolaidd os bydd gennych lawer mwy nag arfer, fel mae'r llun o un rhan o'r ganolfan yn dangos. Rhoddir lle i'r Gymraeg, nid yn unig yn y rhan hon ohoni ond ym mhob rhan arall hefyd.

Gyda llaw, ceir rhestr lawn o'r pethau a dderbynnir yn Nercwys ar wefan y Cyngor Sir, a roddodd ganiatâd inni dynnu'r llun yma o'r ardal papur, poteli gwydr, caniau, poteli plastig, llyfrau, cerddoriaeth a.y.y.b.. Ac yn ôl a ddywedir gan y rhai a fu yno, mae croeso a phob cymorth i'w cael gan y staff hynaws.

# TREUDDYN

Yn sydyn yn Ysbyty Maelor bu farw Mr Idris Roberts, Bod Helid, gynt o'r Pwll, Treuddyn. Gŵr annwyl Helen, tad Delyth a Daniel a thaid arbennig. Yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Robert John Roberts, fe fagwyd Idris a'i chwaer Nerys yn hen gartref y teulu, Fferm y Pwll, gan adael Ysgol Ramadeg Yr Wyddgrug, i ddod adref i ffarmio.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn magu defaid a gwartheg stôr, a bu'n beirniadu mewn llawer cystadleuaeth efo'r Ffermwyr Ifanc; mudiad oedd yn agos iawn at ei galon a thrafaeliodd yn bell i hybu llwyddiant cig oen a gwlân Cymreig. Dioddefodd yn greulon ar ôl damwain gas bron ugain mlynedd yn ôl a bu'n rhaid iddo fynd drwy lawer llawdriniaeth. Er hynny, parhaodd i weithio'n galed ac i gynrychioli'r gymuned leol gyda brwdfrydedd fel Cadeirydd y Cyngor Cymuned a Llywodraethwyr Ysgol Terrig: roedd bob amser am sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei lle. Cydymdeimlwn yn fawr â Helen a'r teulu yn eu hiraeth am un oedd mor ofalus ohonynt. Cofiwn yn annwyl iawn Mrs Olwen Williams, Matthias gynt, a fu farw'n dawel mewn oedran teg. Coffa da amdani a'i gwên siriol. Bu farw Mr Charles Reid, gŵr annwyl Nancy, brawd Muriel Morris, a mab y diweddar Mr a Mrs John Reid, Frank Farm. Er diddordeb, ar dir Muriel a'i gŵr y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 2011, pan gollais i gadwen aur.

Nodwn fod Capel y Rhos, Capel Ebeneser ac Eglwys y Plwyf ar gau yn ystod argyfwng y Coronafirws. Braf bydd cael cyhoeddi pan fyddant yn ail agor a phan fydd yr argyfwng drosodd.

Cofion annwyl i bawb o'n cydnabod a dymuniadau da i chi gyd.
Mrs. Mary Roberts (Ar ran cymuned Treuddyn).

# LICSWM

'Does dim amheuaeth ein bod yn byw trwy amseroedd rhyfedd iawn gyda effaith Coronavirus (COVID – 19) yn lledu trwy'r wlad a'r neges i bawb "aros adre" yn dod yn fwy a mwy pwysig. Rhaid gobeithio bydd drwch y boblogaeth yn ymateb yn bositif i'r neges. Go brin y buaswn wedi rhagweld y fath amgylchiadau ar ddechrau'r flwyddyn. Meddyliwn yn arbennig am yr holl ddoctoriaid, nyrsys a gofalwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd gan y bydd ein cymdeithas mor ddibynnol arnynt yn ystod y misoedd i ddod. Efallai mae dyma gyfle hefyd i'r llywodraeth cydnabod mor bwysig yw ein amaethwyr a phobl sydd yn cynnal y gadwyn fwyd fel ein bod yn gallu byw o ddydd i ddydd.

**Llinell Gymorth**

Mae negeseuon positif yn dod allan o'r hyn sydd yn digwydd wrth i'n cymunedau tynnu at eu gilydd – yma yn ardal Licswm, Babell ac Ysceifiog sefydlwyd llinell gymorth i rhai sydd angen help gyda siopa neu dod a phre-

scriptiwn gan y meddyg neu pethau tebyg. Diolch i'n Cynghorydd Sir, Tudor Jones, a chyfeillion Grwp Cymuned Licswm am y trefniadau.

Os oes angen cymorth arnoch yna ffoniwch un o'r rhifau a welir isod ac yna fe fyddant yn eich cysylltu â gwirfoddwyr sydd yn barod i helpu. Felly peidiwch a phryderu gofyn am gymorth fel hyn.

Y rhifau ffôn yw:

Lisa Orhan 07833070218
Ann Rowlands 07936829165
Nesta Davies 07546224736

Deallwn bod pentrefi eraill yn ein cylch a threfniadau tebyg a braf yw gweld gwerth "Cymuned" ar adegau fel hyn.

Diolch i bawb am eu cymorth parod.

**Dydd Gweddi Byd Eang Y Chwiorydd**

Cynhaliwyd cyfarfod dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd ar gyfer ardal Treffynnon yng Nghapel Penbryn, Treffynnon ar brynhawn Gwener, Mawrth 6ed. Daeth nifer o chwiorydd eglwysi lleol at eu gilydd i gynnal cyfarfod hyfryd a baratowyd eleni gan Chwiorydd gwlad Zimbabwe.

**Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Y Berthen**

'Roeddwn yn falch o groesawu Arwel Roberts a'i wraig, Awen, atom i roi sgwrs a straeon difyr am hanes yr Ŵyl Ban Geltaidd. Mae Arwel ac Awen wedi gweithio yn galed i sicrhau llwyddiant yr Ŵyl dros y blynyddoedd. Cawsom noson ddiddorol iawn i gynnwys sleidiau o'r Ŵyl a hanes y cymeriadau sydd yn cyfarfod o flwyddyn i flwyddyn yn yr Iwerddon. Yn anffodus, ers y cyfarfod, clywsom fod yr Ŵyl wedi ei chanslo eleni.

Oherwydd y Coronavirus mae cyfarfodydd ein gwahanol cymdeithasau ynghyd a gwsanaethau Capel y Berthen ac Eglwys Ysceifiog wedi eu ddileu ar hyn o bryd.

Yn ogystal a hyn fe fydd Papur Fama mis Ebrill ar gael ar lein yn unig er mwyn diogelu y rhai sydd yn dosbarthu y papur. Nid yw'n debyg bydd y papur yn cael ei argraffu eto tan mis Hydref.

## Ysgolion Sir Y Fflint

Fel y gwyddom, mae'r Firwscorona CoVid – 19, wedi cydio ers canol mis Mawrth ac o ganlyniad mae pob ysgol dros Gymru a'r Deyrnas Gyfunol wedi darfod addysg statudol a ffurfiol i'w disgyblion a myfyrwyr. Mae'n anhebyg iawn y fydd amserlenni dysgu ac addysgu cyffredin yn dychwelyd tan fis Medi ar y cynhara'!

Serch hynny, bwriedir y bydd 10% - 15% o blant a phobl ifanc Sir Y Fflint yn parhau i dderbyn gofal a gwasanaeth gwarchod, ar safleoedd eu hysgolion penodol, gan athrawon a gweithwyr nad ydynt yn sâl gyda'r feirws. Mae'r bwriad yma yn cynnig y cyfle hanfodol sydd eu hangen arnom, fel cymdeithas, i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd & gofal, y gwasanaeth argyfwng, yr archfarchnadoedd yn parhau hyd eithaf eu gallu gyda phlant y gwasanaethau hynny yn derbyn gofalaeth yn ystod eu dyddiau o waith. Diolch iddynt oll am dynnu ynghyd gan barhau i agor eu drysau i'r plant hynny ac am barhau i gynnig cinio i blant difreintiedig.




# Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd 2020

# (Sir Ddinbych)

Daeth siom aruthrol dros adrannau, aelwydydd, ysgolion a cholegau Sir Y Fflint wrth glywed y bydd rhaid ohirio’r Eisteddfod eleni yn Landyrnog, ger Ddinbych. Yn sgil y Feirwscorona CoVid 19, bydd Eisteddfod yr Urdd nawr yn cael ei chynnal yn Sir Ddinbych ym mis Mai 2021 yn hytrach nag ym Mai 2020 ac mae’r Urdd yn trafod yn barhaus gyda’i bartneriaid darlledu, S4C a BBC Radio Cymru, o ran opsiynau i ddathlu doniau’r aelodau ar blatfform gwahanol yn 2020. Dyma’r tro cyntaf, ers cyfnod yr ail-rhyfel byd, i’r Urdd orfod ohirio’r Eisteddfod.

Er y chynhelir yr Eisteddfod yn 1939, ac yn rhannol yn 1940 yn y Rhyl, ar ddechrau’r rhyfel ni chafwyd ‘Steddfod yn 1941, 42, 43, 44 nag ychwaith yn 1945 ond fe lwyddodd yr Eisteddfod i ddychwelyd i Gorwen yn 1946 llawn cyffro, llwyddiant a gobaith. Y gred yw, mai hon oedd yr Eisteddfod fwya’ lwyddiannus i’r Urdd ei chynnal ers ei sefydlu yn 1929 gyda 20,000 o bobl a phlant yn mynychu! Mae’n argoeli’n dda ar gyfer y wledd ddisgwyliedig y flwyddyn nesaf yn Sir Ddinbych! Dewch yn llu i ail gyna’r fflam er mwyn i’r dyffryn profi doniau ieuenctid Sir y Fflint! - gweler llun rhai o aelodau adrannau’r Wyddgrug yn dymuno ‘Pob Lwc’ gogyfer y flwyddyn nesaf.

Gydag Eisteddfod Sir Ddinbych yn symud i 2021, fe fydd Eisteddfod yr Urdd 2022 yn cael ei chynnal yn Sir Gaerfyrddin.

Mae canslo digwyddiadau mawr a chau gwersylloedd yr Urdd yn naturiol yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol i’r Urdd ac mae amcangyfrif cychwynnol yn awgrymu bydd ergyd ariannol o bron i £4 miliwn yn dilyn cyhoeddiadau yn sgil CoVid - 19.

Mae’r Urdd yn trafod gyda’u holl bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr effaith sylweddol y bydd y sefyllfa bresennol yn ei chael ar yr Urdd, eu gweithlu o 320 ac ar bobl ifanc a phlant Cymru.

# Côr Y Pentan

Da oedd gweld Côr Y Pentan yn dychwelyd i drefn yn dilyn gwyliau’r Nadolig. Mae’r trefniadau diweddar ar ei newydd wedd gyda Siân Meirion yn dychwelyd i’r llyw a Brenda Flanagan yn cyfeilio. Mae’r Côr bellach yn cyfarfod am 7:30yh tan 9:00yh yng Nghanolfan Daniel Owen, pob nos Fercher yn ystod y tymor ysgol. Mae oddeutu 30 o aelodau yn cyrraedd yr ymarferion yn gyson ac maent eisoes wedi perfformio yng Nghlwb Rygbi, dre’r Wyddgrug. Mae’n fendigedig i weld gymain o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfle i ymaelodi gyda’r Côr a chymaint o bobl ifanc yno hefyd.

Roedd y Clwb Rygbi dan ei sang cyn iddynt arddangos y gêm yn fyw ar y sgrîn fawr ar y 7fed o Fawrth. Cynigwyd nifer fawr o ganeuon cyfoes ac emynau poblogaidd Cymraeg a Chymreig i’r gynulleidfa frwd a oedd

yno i gefnogi Cymru yn erbyn Lloegr. Yn wir, roedd hi'n awyrgylch egnïol!
Ar ddiwedd y gêm fe aeth aelodau'r Côr ymlaen am bryd o fwyd i Warws Telford ger y gamlas yng Nghaer cyn cefnogi'r band – Bethlehem Casuals, yng nghwmni Awen Blandford sydd yn cyfrannu fel prif leisydd a chwaraewr y soddgrwth (gweler llun). Cawsom noson fendigedig nghwmni ffrindiau da, bwyd da a cherddoriaeth dda! Roedd hi'n hyfryd i weld Awen eto ar daith led led y wlad gyda'i band pop a werinol.



Yn anffodus iawn, bûm yn ymarfer ers deufis ein caneuon ar gyfer cynhyrchiad 'Tylwyth' a oedd i'w lwyfannu yn Theatr Clwyd a Theatr Hafren ym mis Ebrill, ond oherwydd cyfarwyddyd y Llywodraeth (yn dilyn ymlediad Covid- 19) bu rhaid gohirio'r trefniadau am y tro gan obeithio'n fawr y byddem yn medru cydweithio gyda Chwmni Theatr Genedlaethol Cymru i ail gydio yn y daith yma yn y gogledd yn dilyn argyfwng y Coronafirws.


LLEWELLYN-JONES
SOLICITORS > CYFREITHWYR

**GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

- TRAWSGLUDO PRESWYL A MASNACHOL
  Gwerthiannau, Pryniannau, Ailforgeisi, Morgeisi Prynu er mwyn Gosod, Pecynnau Gwybodaeth am y Cartref, Pecynnau Arwerthiant
- LANDLORD A THENANT
  *Prydlesi Masnachol a Gosodiadau Preswyl*
- AMAETHYDDOL AC YSTADAU
- EWYLLYSIAU / PROFIANT AC YMDDIRIEDAU / PŴER ATWRNAI / LLYS AMDDIFFYN
- PRIODASOL
  *Materion Ysgaru / Gwahanu / Partneriaethau Sifil*
  *Anghydfodau Cydfyw / Materion Ariannol*
  *Trais yn y Cartref (Gwaharddebion) / Aflonyddwch*
  *Rydym yn Aelod o'r Panel Cyfraith Teulu a Resolution a gallwn gynnig dull cydweithrediadol o ymdrin â datrys anghydfod*
- PLANT
  *Preswylio / Cyswllt / Achosion Gofal / Cyfrifoldeb Rhieni*
- GWAITH AMDDIFFYN TROSEDDOL
- CYFREITHA SIFIL
  *Anafiadau Damweiniau a Phersonol, Anghydfodau Sifil, Adennill Dyledion*
- GWAITH ASIANTAETHOL
  *Troseddol a Sifil*
- TRWYDDEDU GWIRODYDD
- Ymweliadau cartref trwy drefniadau ymlaen llaw

Os na allwn gynnig y gwasanaeth y mae arnoch ei angen, byddwn wastad yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â chwmni arbenigol, ag enw da iddo, sydd cyn agosed i'ch cartref ag y bo modd

**YR WYDDGRUG**
Ty Victoria
Stryd Grosvenor
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1EJ
01352 755305
01352 755487
post@llew-jones.co.uk

**RHUTHUN**
Siambrau Banc Barclays
Stryd Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1HW
01824 704495
01824 702535
post@llew-jonesrhuthun.co.uk

# Am dro i'r Bannau Pell

adroddiad Huw P-Davies



Erbyn hyn 'does unlle yn bell yn y byd, mae modd cyrraedd i ben draw'r byd mewn rhyw ddiwrnod neu ddau, ond er hwylusdod y teithio yno, mae yna'n dal fyd o wahaniaeth ar ôl cyrraedd! Felly y teimlem ar ol rhyw ddiwrnod o deithio i Misoram, talaith bellennig yng Ngogledd Ddwyrain yr India. Ond yr oeddem mor falch inni allu mynd gan fod y rhan fwyaf o deithio ar ben bellach a'r India i gyd gyda'i phoblogaeth o 1.2 biliwn o bobl yn byw dan gyfyngiadau llym am dair wythnos ar hyn o bryd oherwydd y Coronofirws a'n pryder yn fawr dros boblogaeth y dalaith hon o India sydd a chyn lleied o ofal iechyd a modd i gynnig gofal i'w phoblogaeth.


Ninnau gyda'r criw tu allan i'r Capel.

Yr oedd Nan a minnau yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad i ymuno yng nghynhadledd ieuenctid synod Misoram o Eglwys Bresbyteraidd yr India o gwmpas diwedd Chwefror a dechrau Mawrth. Cafon ni gwmni Lowri a James Mitton o'r Wyddgrug i fod yno gyda ni ac roedd Aneurin Owen, o Lansannan, a aned yno yn fab i genhadon a'i dad yn sylfaenydd y mudiad ieuenctid yno hefyd, ynghyd a'r delynores Siân James a oedd wedi dod a thelyn yno i berfformio ac i'w gadael iddynt. Yn teithio yn y Gogledd Ddwyrain hefyd yr un pryd yr oedd yr artist Cefyn Burgess a chawsom gip arno yntau hefyd.

Roedd yna 16 mlynedd ers i mi

fod yno o'r blaen ar y 'Bannau Pell', chwedl J.M.Lloyd yn ei gyfrol o'r un enw ar hanes y genhadaeth Gymreig yno. Mae hon yn dalaith gwbl fynyddig yng ngogledd Ddwyrain yr India lle bu cenhadon o Gymru yn lledaenu newyddion da Iesu Grist tan 60au'r ganrif ddiwethaf. Llawenydd mawr ydy cael dweud fod y berthynas rhyngom fel eglwysi yn dal yn fyw iawn, a nifer ohonoch yn cofio'r Côr a ddaeth oddi yno y flwyddyn diwethaf ac a fu ar daith o amgylch Cymru ar adeg y Pasg.

Y mae mynd i Misoram fel camu i fyd gwahanol ar lawer ystyr: tirwedd gwahanol, pobl wahanol, planhigion gwahanol, bwydydd gwahanol ayyb. Ond eto i gyd, roedden ni'n teimlo mor gartrefol yno hefyd, oherwydd bod yna Gymry wedi bod yno o'n blaenau, bod yna berthynas rhyngom, bod yr eglwys yn gryf yno a'r eglwys honno yn gweddïo dros Gymru, bod gennym ffrindiau yno, bod y croeso mor frwd a'r lletygarwch mor anhygoel.

Yn yr eglwysi roedd yna gynnydd i'w weld ym mhob man a chymaint o ddatblygu wedi digwydd ers inni fod yno o'r blaen - capeli newydd wedi eu codi ac eglwysi newydd wedi eu plannu a chynlluniau mawreddog yn cael eu gwireddu. Fe arhoson ni am gyfnod yn y Coleg Diwinyddol ger y brifddinas Aizawl. Coleg sydd ar fryn uchel a thros 170 o fyfyrwyr diwinyddol yno yn astudio. Roedd yr awyr yn fain, ond y profiad yn un 'pen y mynydd'. Dyma'r olygfa isod o ffenestr ein llofft yno gyda'r brifddinas ar bryniau i'w gweld yn y pellter.

Gweler llun o aelodau'r mudiad ieuenctid a oedd yn edrych ar ein holau y tu allan i gapel newydd Chaltlang, un o o leiaf 100 o eglwysi yn y brifddinas lle roedd 3000 yn bresennol yn yr Ysgol Sul fore Sul 23ain o Chwefror.

Gallem sôn yn hir am y lle a'i phobl, a gobeithio y daw cyfle i wneud hynny pan fydd yr aflwydd yma wedi cilio, ac am y prosiectau hynod a welsom y mae'r eglwys yn eu cefnogi a ninnau'n cael y fraint o bartneru efo nhw. Ond yr hyn fydd yn aros o'r gynhadledd ei hun, fydd y fraint o gael bod yno gyda nhw yn moli Duw gyda dros 40,000 o bobl a'r rheiny y rhan helaethaf, yn rhan o fudiadau ieuenctid eu heglwysi ac yn weithgar yn lleol.


Y dorf yn y gynhadledd

Cawsom ddathlu Gwyl Ddewi efo nhw a chanu Dros Gymru'n Gwlad i gyfeiliant telyn Siân James a chlywed Côr y Synod yn canu Calon Lân. Roedd ymdrech y trefnwyr yn anhygoel o ystyried y lleoliad lle roedd y gynhadledd yn cael ei chynnal, gyda'r offer sain a fideo diweddaraf wedi ei gludo yno fel popeth arall, hyd ffyrdd enbyd o beryglus a throellog. Roedd y croeso i'r ymwelwyr yn fenter anhygoel i'w gyflawni gyda thref Serchip a phoblogaeth debyg i'r Wyddgrug am wn i, yn croesawu 40000 o bobl ifanc i'w lletya a'u bwydo. Sut oedd y fath beth yn bosibl? Byddai rhwng 20 a 70 o bobl yn cael eu croesawu a'u lletya mewn un tŷ gyda phopeth arall yn cael ei symud allan er mwyn gwneud lle i gysgu. Heb lawer o fodd eu hunain, yr oedd bobl y Miso yn barod iawn i gynnig y cwbl oedd ganddynt er mwyn estyn croeso i'w cyd Gristnogion o weddill y dalaith. Roedd yno ganu a dawnsio a chreadigrwydd gwefreiddiol yn yr oll oedd yn digwydd yno, a hwn eto yn un o'r profiadau 'pen y mynydd' a fydd yn aros yn hir iawn gyda ni.

# Llyfrgelloedd Aura yn Dathlu Ail-agoriad Llyfrgell y Fflint ar ôl y gweddnewidiad mawr!

***Cynhaliwyd ail-agoriad swyddogol Llyfrgell y Fflint ar 5 Mawrth 2020, i gyd-fynd â ddathliad Llyfrgelloedd Aura ar Ddiwrnod y Llyfr.***

Yn 2019, roedd Aura Cymru yn falch iawn o sicrhau £300,000 o gyllid ar gyfer gwaith gwella yn Llyfrgell y Fflint drwy gais grant cyfalaf llwyddiannus i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r £300,000, bydd Aura Cymru a Chyngor Sir y Fflint hefyd yn cyfrannu at y datblygiad, gan olygu fod y buddsoddiad newydd werth cyfanswm o £360,000.

Ymunodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC dros Dwyfor Meirionydd a Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth gyda Arweinydd Cyngor Sir y Fflint, Ian Roberts, â chydweithwyr Aura ar y 5ed o Fawrth i ddathlu torri'r rhuban!

Ar y diwrnod hwn, ymunodd dros 450 o ymwelwyr â thîm Aura gan gynnwys ysgolion lleol a ymwelodd drwy gydol y dydd i gymryd rhan yn nathliadau Diwrnod y Llyfr. Cynhaliodd yr adroddwr straeon Fiona Collins a'r bardd Joy Winkler sesiynau ffantastig i blant ac oedolion eu mwynhau fel ei gilydd. Cafodd gwesteion hefyd y cyfle i fwynhau perfformiad côr Ysgol Croes Atti a roddodd berfformiad ardderchog. Roedd cynrychiolwyr o Wasanaethau Hamdden Aura yn bresennol i gynnig gwiriadau iechyd



am ddim ac amryw o weithgareddau gan gynnwys ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar i bwysleisio ail-sefydlu'r llyfrgell fel Canolbwynt Lles.

Mae'r cyllid hwn wedi trawsnewid y llyfrgell yn llwyr, ac mae bellach yn gartref i gegin gymunedol a man arddangos treftadaeth. Mae llyfrgell y plant, yr ystafelloedd hyfforddiant a'r brif lyfrgell hefyd wedi cael eu hail-ddylunio a'u trawsnewid er mwyn creu gofod cymunedol mwy hyblyg.

Ynghyd â'r gwaith trawsnewid, mae Aura wedi cyflwyno peiriannau hunanwasanaeth ac yn diweddaru cyfleusterau TGCh llyfrgell i wella a moderneiddio ei ddarpariaeth ddigidol.

Mynegodd Arweinydd y Cyngor, Ian Roberts, ei frwdfrydedd am y datblygiad, gan ddweud: "Mae'n dda gen i glywed bod Llyfrgell y Fflint wedi ailagor ar ôl y gwaith datblygu, sy'n gam cadarnhaol arall yn y bartneriaeth barhaus rhwng Aura a Chyngor Sir y Fflint. Mae'r adeilad wedi'i adnewyddu yn ganolbwynt bywiog ac yn ased enfawr i'r dref, rwy'n edrych ymlaen i weld beth ddaw yn y dyfodol."

Yn yr un modd, dywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas: "Rydw i wrth fy modd fod Llywodraeth Cymru wedi gallu cefnogi'r prosiect hwn i ddarparu cyfleusterau llyfrgell modern a hyblyg yn y gymuned – ac roedd yn bleser gwirioneddol gweld y lle hwn yn llawn bwrlwm ar Ddiwrnod y Llyfr. Rwyf wedi ymweld â sawl llyfrgell a gyd-leolwyd ar draws Cymru ac rydw i wedi gweld â'n llygad fy hun y gwelliannau y gall ei gynnig i'r gymuned leol drwy gael gwasanaethau lleol yn yr un lle – hoffwn ddymuno'n dda i'r canolbwynt hwn ar gyfer y dyfodol."

Hoffai pawb yn nhîm Aura ddiolch i bawb a oedd yn bresennol ar y dydd i ddathlu Diwrnod y Llyfr a phwysigrwydd gwasanaethau llyfrgell i'r gymuned. Dywedodd Susannah Hill, Rheolwr Llyfrgell: "Gan fod drysau'r llyfrgell wedi ailagor bellach, byddwn yn gallu darparu ein gwasanaethau mewn ffordd newydd ac yn cynnig llawer mwy i gymuned y Fflint. Mae'r llyfrgell bellach yn le modern a hyblyg i bori drwy straeon a gwybodaeth, gan ein caniatáu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i bawb. Roedd cynnydd o 600 yn y llyfrau a fenthyciwyd ym mis Chwefror 2020 mewn cymhariaeth â Chwefror y llynedd sy'n ffantastig – mae wedi bod yn fendigedig gweld ymateb y gymuned leol hyd yma!"

Mae datblygiad Llyfrgell y Fflint yn gyfle newydd cyffrous i Aura wrth i ni barhau â'n cenhadaeth fel sefydliad dielw, er budd cymuned Sir y Fflint.


papur FAMA **Hysbysebion**

Os hoffech hysbysebu eich gwaith neu gwasanaeth eich cwmni ym Mhapur Fama gweler y prisiau isod:

| | |
|---|---|
| 1/8 tudalen | £7.50 (un rhifyn) |
| ¼ tudalen | £15 (un rhifyn) |
| ½ tudalen | £30 (un rhifyn) |
| Tudalen llawn | £50 (un rhifyn) |

Prisiau am y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| 1/8 tudalen | £50 |
| ¼ tudalen | £100 |
| ½ tudalen | £200 |
| Tudalen llawn | £350 |

Hysbysebion personol neu ddiolchiadau: cyfraniad o £5 os gwelwch yn dda.

# Dynion Gwyrdd Yr Wyddgrug

Un prynhawn Sul ym mis Medi y llynedd, syrthiodd coeden ar dir tŷ o'r enw Mont Alto yn stryd Pwll Glas ar draws y ffordd, gan fylchu wal derfyn yr ardd. Chafodd neb niwed. Ond gwnaed difrod mawr i gar a oedd wedi'i barcio yr ochr arall i'r ffordd, a chollodd sawl tŷ eu cyflenwad trydan am rai oriau. Cyn diwedd y dydd, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r goeden wedi'i symud oddi yno, a'r ffordd ar agor i draffig.

Roedd rhan isaf y goeden a'i gwreiddiau yn



*Dyn Gwyrdd carreg Capel Sant Ioan yn yr Eglwys (llun John Roger Williams)*



*Y Dyn Gwyrdd carreg ar ben piler yn yr Eglwys (llun John Roger Williams)*

gorwedd yng ngardd Mont Alto. Cefais sgwrs gyda'r saer maen lleol a ddaeth i drwsio'r wal. Cyfeiriodd at garreg gerfiedig ar ffurf pen ym môn y goeden. Tybiai mai pen 'Dyn Gwyrdd' ydoedd, am fod dail ar ei ben yn lle gwallt.

### Symbol o Adfywiad Natur

Cysylltir y Dyn Gwyrdd gyda sawl diwylliant, oes a chrefydd, gan gynnwys Cristnogaeth. Fe'i dehonglir yn bennaf fel symbol o adfywiad natur yn y gwanwyn ar ffurf amrywiol:



*Y Dyn Gwyrdd pren yn yr Eglwys (llun John Roger Williams*

dail, pen wedi'i amgylchu gan ddail, pen a blagur neu ganghennau'n tyfu o'r geg neu o'r ffroenau a hwythau'n gyforiog o ddail, neu flodau, neu ffrwythau.

Mae tri dyn gwyrddi'w gweld yn Eglwys y Santes Fair, Yr Wyddgrug. Rydw i'n ddiolchgar i John Roger Williams, cyn-warden yn yr eglwys a chapten presennol y clychwyr, am eu dangos imi. Rhai carreg yw dau ohonyn nhw, yn adeiladadwaith canoloesol yr eglwys: un ar ben piler a'r llall yn rhan o ffrâm ffenest Capel ystlysol Sant Ioan.

Un pren yw'r llall, wedi'i gerfio ar derfyniad un o'r seddau gan Thomas Edwards, crefftwr lleol, dan gyfarwyddyd Syr Giles Gilbert Scott yn ystod gwaith adfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adroddodd John hanes un arall, a gladdwyd yn y ddaear rhag iddo gael ei ddifrodi gan gefnogwyr Oliver Cromwell adeg Rhyfel Cartref neu Gymanwlad y 17fed ganrif. Ymhen hir a hwyr fe'i codwyd o'i guddfan, ond cafodd ei falu gan y ficer, a dybiai ei fod yn *'popish idol'*.



*Dyn Gwyrdd tybiedig Mont Alto (llun gan Dr Hannah Phylip, gyda chaniatâd y perchennog)*

# Cymdeithas Wil Bryan

Cawsom y pleser o gael Owen Thomas, athro o Faes Garmon yn siaradwr gwadd gyda ni ym Mis Chwefror. Siaradodd yn frwd am brosiect mae'r Ysgol yn ei wneud ar geiswyr lloches. Dros y blynyddoedd symudodd gwahanol garfannau am amrywiol resymau gan osod gwreiddiau yn ein plith. Rhai bellach yn rhan o deuluoedd yr aelodau. Bwriad Owen a'r Ysgol ar y pryd oedd gwneud arddangosfa o waith y disgyblion yn ystod tymor yr haf, fel y gwnaed gyda 'u prosiectau ar y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn ystod y noson cawsom y newyddion fod Joe, perchennog y Savoy yn bwriadu rhoi gorau i'r bwyty fis Mehefin. Bu Joe yn cadw'r bwyty ar Stryd Caer am 51 o flynyddoedd. Mae posibilrwydd cryf felly y bydd y Gymdeithas yn gorfod canfod cartref newydd. Dylid nodi fod rhwyddineb a charedigrwydd Joe wedi helpu i alluogi'r Gymdeithas i roi cefnogaeth ariannol i gymaint o Gymdeithasau Cymraeg yr ardal. Mae gennym oll le mawr i ddiolch iddo.

Oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r Feirws *(Covid – 19),* bu'n rhaid canslo cyfarfodydd y Gymdeithas am y tro. Mawr obeithiwn fodd bynnag y gallwn gael o leiaf un pryd arall gan Joe yn y Savoy, a chael cyfle i ddiolch a chanu'n iach iddo mewn modd teilwng.

papurFAMA

Cofiwch anfon eich newyddion, hanesion, hysbysebion a lluniau at:-
*papurfama@hotmail.co.uk*
*Diolch i'n cyfrannwyr oll*

## Bargeinion/Bargains!

Mae siop Home Bargains ger Clwb Rygbi Yr Wyddgrug ar agor ers rhai misoedd bellach, a gwelir y Gymraeg mewn mannau amlwg y tu allan a'r tu mewn iddi. Wrth gyrraedd cewch ddarllen rhestrau hir o nwyddau ar werth yn yr ddwy iaith. Wedi mynd i mewn fe welwch fod llawer o'r arwyddion uwchben y llwybrau rhwng y silffoedd yn gwbl ddwyieithog – a'r geiriau Cymraeg wedi'u sillafu'n gywir i gyd.

A phe bai rhaid ichi ddianc o'r adeilad ar frys, caech ddarllen y rhybudd ar y drws yn Gymraeg neu yn Saesneg! Ond deallwn fod gwallau yn y Gymraeg ar ddrws dianc siop Home Bargains mewn tref arall ar un adeg. Tynnwyd sylw 'r cwmni atyn nhw gan un o ddarllenwyr *Papur Fama,* ac fe'u cywirwyd yn ddi-oed. TJ. Morris yw enw'r cwmni. Yn Lerpwl mae'r brif swyddfa, a Tom Morris yw enw'r perchennog. Mae'r teulu mewn busnes ers tair cenhedlaeth. A oes cysylltiad Cymreig yma, ac ystyried yr holl ymfudo a fu i'r ddinas o Ogledd Cymru dros gyfnod hir?



# CAPEL BETHESDA

Daeth cyfle wedi Gaeaf gwlyb a llwyd i edrych ymlaen at y Gwanwyn a dathliadau Y Pasg ond gyda chysgod y feirws Covid 19 dros ein gwlad a gweddill y byd mae'n amser o ansicrwydd mawr i bawb. Mwy nag erioed rhaid cofio geiriau ein nawddsant Dewi a 'Gwneud y pethau bychain'. Trwy wneud hynny, cefnogi'n gilydd a'r gymdeithas ehangach rydym yn rhan ohoni byddwn yn cryfhau ein cymunedau i wynebu y dyfodol.

Oherwydd ymlediad Covid 19 bu rhaid cymryd cam, nas cofiwn erioed i ddigwydd o'r blaen, sef fod adeilad Bethesda ar gau i bob digwyddiad yn cynnwys gwasanaethau ar hyn o bryd.

Wrth groesawu Huw a Nan yn gynnes wedi eu taith i Mizoram maent wedi paratoi ar ein cyfer a gellwch ymuno a thudalen Facebook y capel am fwy o wybodaeth: Capel Bethesda, Yr Wyddgrug. Gobeithir cynnig rhagor o oedfaon byw wedi eu ffrydio dros y we a'u cadw wedyn ar y safle hwn ar gyfer pawb a fydd am ymuno ar fore Sul. Mae'r cyfarfodydd sei@ astudiaeth a gweddi wythnosol yn parhau drwy skype a thros y ffôn.

**Cymdeithas Y Prynhawn** (Ieuan Jones)

Cyfarfod Chwefror 12

Trawsnewidydd ynni – dyna, mewn dau air oedd Robin Jones cyn ymddeol.

I ni, sydd yn defnyddio ynni fel petai dim yfory, y ffurf drydanol o ynni yw'r hwylusaf i'w ddefnyddio ac ym mhen cychwyn y dilyniant trawsnewidio sydd yn gorffen gyda thrydan yr oedd arbenigedd Robin. Wedi ennill ei gymwysterau fel peiriannydd ac arbenigo mewn tyrbinau nwy, treuliodd




Robin beth amser yn gweithio yng Nghasnewydd. Wedi ennill profiad yn yr ardal honno symudodd ef a'i ddoniau i'r Dwyrain Canol ac ymgymryd â phrosiectau anferth yn Saudi Arabia, Yr Aifft ac Israel.

Mae bron pob proses o gynhyrchu ynni yn cychwyn gyda gwres ac yn gorffen gyda gwres a daeth hynny yn amlwg yn sgwrs ddiddorol Robin oedd yn cynnwys gwybodaeth am y tyrbin ager yn ogystal â'r tyrbin nwy. Diben y ddau fath o dyrbin yw troi generadur i gynhyrchu trydan. Mae'r tyrbin nwy yn sugno i fewn awyr, ei roi dan bwysau yna chwistrellu i fewn danwydd, sef nwy, a'i danio – hynny yn cynhyrchu'r gwres ac yn gyrru'r tyrbin ei hun yn ogystal a'r generadur. Berwedydd all wrthsefyll pwysedd uchel a chynhyrchu ager ar dymheredd uchel a'r ager wedyn sydd yn gyrru'r tyrbin hwnnw a'r generadur. Felly,



mae'r ddau fath o dyrbin yn troi'r ynni gwres yn ynni cinetig a'r generadur yn troi'r ynni cinetig yn ynni trydan. Mae yna, bob amser, wres ar ôl sydd angen cael gwared ohono.

'Rydym yn gyfarwydd a'r tyrau oeri sydd yn gysylltiedig a phwerdai confensiynol a dyna sut y ceir gwared a'r gwres sydd ar ôl yn y pwerdai hynny. Ond yn y pwerdy ar lan y Môr Coch yn Saudi, lle 'roedd Robin yn goruchwylio, y dull yw cylchredeg dŵr o'r môr a hynny yn golygu agor sianel 400 metr i'r môr. (Yr un dull oedd yn gweithredu ym Mhwerdy Trawsfynydd sef defnyddio dŵr y llyn ac o ganlyniad y dŵr hwnnw yn cynhesu a'r pysgod yn ffynnu ond fod y dull cynhyrchu gwres yno yn gwbl wahanol.)

Anferthol ac eithafol yw'r ffordd orau o ddisgrifio bron bopeth ynglŷn â gwaith Robin – tymheredd o tua 1,500$^{0}$C, pwysedd o tua 20 atmosffer (mae hyn yn gyfwerth â phlymio i ddyfnder o 200 metr mewn dŵr), craen nofiadwy yn gallu codi 1,200 tunnell a cherbyd yn rhedeg ar 80 olwyn yn cludo tyrbin 400 tunnell i'w le – llyncwch eich balchder, chwi yrwyr 4 x 4!! Mae'r camel yn greadur gweddol uchel hefyd, ond wrth ei ochr y gwelsom Robin nid ar ei gefn.

Ymhlith yr ardaloedd y bu Robin yn gweithio ynddynt mae Rãbigh sydd ar lan y Môr Coch ac Abha sydd ymhellach i'r De ac heb fod yn bell o'r Yemen. Ar ôl cwblhau ei waith yn





Saudi Arabia, croesodd Robin y Môr Coch ac i ddinas Cairo. Dyma'r ddinas fwyaf yn holl gyfandir Affrica ac un sydd yn ymledu yn gyflym. Mewn gwirionedd, mae'r Eifftiaid yn adeiladu prifddinas newydd 40km(25 milltir) i'r Dwyrain o'r hen Gairo ac angen ynni yn ogystal â'r holl isadeiledd arall ar gyfer eu breuddwyd. Dyma Robin a'i debyg i'r adwy fel yn Saudi. Yma, adeiladwyd un o'r gorsafoedd pŵer mwyaf yn y byd yn cynhyrchu 4800 MW (megawatt) Cymharwch â Thrawsfynydd (470 MW) a'r Wylfa (1950 MW.)

Daeth cyfnod Robin yn y Dwyrain Canol i ben gydag ychydig amser yn Israel lle'r adeiladwyd pwerdy bychan 75MW y tu allan i Nasareth yn y gogledd.

Y tu allan i amser gwaith, nid oedd bywyd yng Nghairo yn hawdd iawn nac yn ddiogel a rhaid oedd i'r contractwyr, oedd yn estroniaid, fyw mewn un ystâd o fflatiau ac ni chaent grwydro'r ddinas. Cyn gadael, fodd



bynnag, cafwyd cyfle i grwydro o gwmpas y pyramidiau a chael golwg ar y “Sphinx”. Yn Israel, ’roedd Robin yn byw mewn Kibbutz – yr hynaf yn y wlad. Nid oedd gweithio ar y Sadwrn am mai hwn oedd Sabath yr Iddew ac felly llawer o gyfleon i weld y wlad ac hefyd olwg ar wlad yr Iorddonen. Daeth Robin a’r sgwrs i derfyn drwy ddangos lluniau o leoedd cyfarwydd i rai aelodau oedd wedi treulio gwyliau yn yr ardal.

Mae profiad Robin fel peiriannydd a’r ddisgyblaeth ynghlwm â hynny wedi troi’n fudd sylweddol i Fethesda mewn mwy nac un cyfeiriad.

**Cofion**

Cofiwn yn gynnes at bawb o aelodau a ffrindiau Bethesda, rhai mewn cartrefi gofal a llawer yn gorfod hunan-ynysu yn eu cartrefi. Cafodd rai driniaeth ysbyty yn ddiweddar a gyrrwn ein cofion atynt am wellhad llwyr a buan.

**Dathlu Gwyl Dewi**

Cafwyd gwasanaeth undebol ym Methesda ar Fawrth 1af wedi ei baratoi gan flaenoriaid yr eglwys gyda chyfraniadau gan y plant, aelodau a chôr y capel. Roedd hwn yn wasanaeth cynnes a chynhwysol. Diolch i bawb fu yn paratoi ac am y baned a chacennau cri wedi’r oedfa.

Yn y nos, fe gynhaliwyd y gwasanaeth Dydd Gweddi Byd eang gyda gwragedd or’ gwahanol eglwysi yn cymryd rhan.

Y Sul dilynol ar Mawrth 8fed, fe gafwyd gwasanaeth cymun yng ngofal Nan yn y bore a Huw yn y nos. Ar y 15fed o Fawrth, yr oeddem wedi trefnu i gynnal enwebiad ar gyfer codi rhagor o flaenoriaid yn ein plith. Yr oeddem ni mor ddiolchgar ein bod wedi gallu cynnal y gwasanaeth hwn dan ofal Huw gan mai hwn fu ein gwasanaeth olaf am y tro gyda’n gilydd yn y capel. Yr ydym yn diolch i Dduw hefyd inni lwyddo i godi dau o flaenoriaid newydd i ymuno gyda’r tîm, sef Robin a Gwenith Jones. Mae’r ddau eisoes yn weithgar yn ein plith ac edrychwn ymlaen lawer o gydweithio i ddod. Dymunwn bob bendith arnynt ac ar eu cyfraniad yn ein plith.

**Y Cwch Gwenyn**

Bu i nifer o aelodau’r Eglwys a’r Cwch Gwenyn fwynhau Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty y Plas Hafod ar Fawrth 1af gan ddod ynghyd ac eraill yn ein cymuned i ddathlu dydd ein nawddsant Dewi. Trefnwyd y dathliad eleni gan Gymdeithas Wil Bryan. Cafwyd adloniant gan Chloe Powell-Davies a roddodd wledd i ni wrth chwarae’r delyn a chanu rhai darnau roedd wedi eu cyfansoddi. Diolchodd Cyril Golding ar ran Cymdeithas Wil Bryan a’n hatgoffa am eiriau Dewi sef ‘Gwnewch y pethau bychain’.

Er na fydd y Cwch Gwenyn yn gallu cyfarfod ynghyd eto eleni nac yn gallu parhau i ymweld mae’n bwysig i ni gadw y cyswllt rhwng ein gilydd ac aelodau ein cymuned a byddwn yn cynnal ein ymweliadau ar y ffôn.

**Colli Ffrindiau Ac Aelod**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Glyn Holywell wedi cyfnod o waeledd. Ein

cydymdeimlad llwyr â'i weddw Ruth ac a'i fab Deri.

Hefyd collwyd Alwena Daly a arferai fod yn aelod gyda ni a mynychu gwasanaethau ym Methesda am flynyddoedd. Cofiwn am Rhiannon ei chwaer a'i gwr John yn yr Wyddgrug a'i theulu hithau, ac am ei hwyr Morgan a'i deulu yn Rhuthun yn eu colled a chydymdeimlwn yn fawr â hwy. Bu angladd Alwena yn Amlosgfa Pentrebychan ar gyfer y teulu agos yn unig, fore Llun 23ain o Fawrth. Derbyniwyd rhoddion er cof amdani trwy law'r ymgymerwr Ralph Williams tuag at Urdd Cyfeillion Ysbyty'r Wyddgrug.

Merch i Jesse ac Ellen Roberts o Dreuddyn oedd Alwena, yn un o dri o blant: Ceri, hithau a Rhiannon, a byddai'n sôn llawer am ei thad a oedd yn ganwr penigamp ac fel yr arferai fynd gydag ef i eisteddfodau a chyngherddau. Roedd hi'n falch iawn o'i orchestion i gyd gydag arian y gwobrau yn ddefnyddiol iawn i helpu teulu bychan oedd yn cael eu codi yn y 20au a'r 30au o'r ganrif ddiwethaf.

Capel y Rhos a'i holl weithgaredd oedd yr aelwyd grefyddol, ac fe fynychodd ysgolion Treuddyn a'r Alun a chwrs llaw fer a theipio wedi hynny. Bu'n gweithio yn ystod y rhyfel i'r Bwrdd marchnata Llaeth yn Wrecsam, yna i gwmni Tar Macadam yn Nhreuddyn a Manweb cyn ymuno â'r swyddfa addysg yn neuadd y Sir o dan gyfarwyddyd Howard Davies ar y pryd. Hoffai adrodd straeon am yr hwyl a geid yno a'r gofal oedd gan y Cyfarwyddwr o'i holl staff, a fyddai'n ymestyn i gynnig cacennau hufen iddyn nhw i gyd pob pnawn Gwener! Dyddiau da yn wir!

Bu iddi ymddeol o'i gwaith yng nghanol yr 80au, ac yn ystod yr adeg yma fe fu'n dwyn ei hunig ferch i fyny, ei hannwyl Angela. Bu'n gyfnod anodd iddi, ond ei merch a'i theulu yn cysur mawr iddi. Ganwyd ŵyr iddi o'r enw Morgan, ac fe dystia yntau iddi fod yn nain gwbl arbennig iddo ef, gan iddi fyw a gweld cenhedlaeth arall hefyd yn ei blant bychan ef a Claire: Louis ag Eva.

Wedi ymddeol, fe aeth ati i ddysgu ac ymarfer dawnsio 'ballroom' pryd y cyfarfu â Michael Daly a phriodi yn 1987. Bu'r ddau yn hapus iawn am dros ugain mlynedd ac Alwena yn fawr ei gofal ohono yn ei salwch. Ergyd drom eithriadol eto iddi oedd colli ei merch annwyl Angela bedair mlynedd yn ôl.

Roedd Alwena yn wraig o argyhoeddiadau dyfnion, a fyddai ganddi ddim ofn eu rhannu gyda chi! Roedd hi'n aelod gweithgar o'r blaid Lafur gan ganfasio drostynt pan fedrai a chasglai at elusennau eraill. Wynebodd y blynyddoedd diwethaf yma gyda rhyw gryfder cymeriad mawr gan fyw yn ei chartref ei hun ar Ffordd Rhuthun hyd iddi orfod mynd i'r ysbyty a disgyn ar ôl dychwelyd adref. Ni fyddai neb wedi meddwl ei bod yn agos i 96 oed pan fu farw. Coffa da amdani, a byddwn yn colli ei chwmni a'i sgwrsio brwd a difyr.

**Mrs. Blodwen Probert**

Bu farw Blodwen Probert ar ddechrau mis Mawrth a bu yr angladd yn Amlosgfa Pentrebychan ar ddydd Iau Mawrth 19fed. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Delyth a Mair a'u teuluoedd yn eu colled.

Elwyn Roberts a dalodd deyrnged i Blod yn y gwasanaeth coffa yn y capel i ddilyn ac mae wedi ei gynnwys yma yn ddarlun i ni gyd i gofio amdani.

Pan oedd Morgan ac Arabella Edwards yn

dewis enw i'w plentyn bach dewiswyd un addas sef – Blodwen. Yn sydyn iawn newidiodd Blodwen i Blod ac i'r rhan fwyaf ohonom dim ond un Blod sydd ac yn sicr nid oes un anwylach wedi bod erioed. 'Roedd gan Blod un chwaer, Lizi a thri brawd sef John, Emrys ac Alun a magwyd y teulu yng Ngharreg Boeth, Yr Hendre.

Ar ôl gadael ysgol gweithiodd yn adran addysg Cyngor Sir y Fflint, wedyn yn Ysgol Daniel Owen cyn derbyn swydd ysgrifenyddes yn Ysgol Glanrafon.

Yn y cyfamser priododd Tom ym mis Mehefin, 1956. Cawsant ddwy ferch, Delyth a Mair ac 'roeddynt yn deulu clos iawn. Cofiwn Tom am ei hiwmor ffraeth ac, yn anffodus, fe farwodd yn weddol ifanc ym mis Tachwedd, 1988.

Priododd Delyth a Kevin a Mair a Peter a bu Blod yn Nain i Claire a Rachel, Russell a Kerry a Hen Nain i Caitlin, Rhys, Ashleigh a Thomas. Yn anffodus, marwodd Peter, gŵr Mair, yn 2019.

Gan ein bod wedi ein geni a magu yn yr ardal hon ac yn cydaddoli yng Nghapel Bethesda 'roeddem yn 'nabod ein gilydd yn dda iawn cyn imi ymuno â staff Ysgol Glanrafon yn 1984. Ar ôl yr apwyntiad clywais fod Blod wedi datgan ei bod yn f'adnabod yn iawn ac yn barod i barhau yn ei swydd am flwyddyn a wedyn ymddeol. Do, fe wnaeth hi barhau yn y swydd a, diolch byth, am ddeg mlynedd. O'r cychwyn cyntaf 'roedd yn amlwg ein bod yn deall ein gilydd i'r dim ac yn cydweithio'n arbennig o dda.

Wrth ddweud hyn ni allwn anghofio y cysylltiad agos rhwng Blod a Mr Ron Parry, pennaeth cyntaf Ysgol Glanrafon. 'Roedd Ron yn meddwl y byd ohoni ac yn gwerthfawrogi ei chyfraniad, yn enwedig, pan oedd yr ysgol yn datblygu mor sydyn. Wrth iddo drosglwyddo'r awenau imi, un o'r pethau cyntaf a ddywedodd wrtha i oedd 'Edrycha ar ôl Blod, Elwyn, mae hi'n werth y byd!'

'Roedd Blod yn gyfeillgar hefo pawb – yr athrawon, gweinyddesau, [rhaid imi gyfeirio at y cysylltiad agos rhwng Blod ac Ann Joseph sydd wedi parhau tan y diwedd – dwy ffrind sbesial], staff y gegin, staff glanhau ac, yn holl bwysig, y rhieni. 'Roedd, yn sicr, yn gwybod sut i drin pobl. 'Roedd y plant yn meddwl y byd ohoni ac ymateb Lowri, y ferch sydd yn ei phedwar degau erbyn hyn, pan glywodd fod Blod wedi ein gadael oedd, ' Trist, 'roedd Mrs Probert yn lyfli!' Gwn, y byddai cannoedd o gyn ddisgyblion yr ysgol yn cytuno.

Mae swydd ysgrifenyddes unrhyw ysgol yn hynod o bwysig oherwydd yn aml, hi yw'r cysylltiad cyntaf efo'r rhieni. Cryfder Blod oedd y ffaith ei bod yn 'nabod y rhan fwyaf o'r rhieni ers eu plentyndod a, hyd yn oed, yn 'nabod y neiniau a'r teidiau.

'Roedd Blod yn 'cool.' Byth yn cynhyrfu, hynod o ddeallus a threfnus ac eto mor ddiymhongar. Ar adegau 'roedd Blod yn dioddef o 'vertigo' ac, ar yr ychydig weithiau oedd hi'n absennol, yn enwedig ar ddydd Llun, 'roedd hi'n draed moch. Minnau y tu ôl i'w desg yn derbyn yr arian cinio ar cofrestri a phres y siop ar ffôn yn canu tra 'roeddwn yn trio cyfrif y cwbl. Erbyn amser cinio 'roeddwn ar fy ngliniau ond 'roedd Blod yn gallu delio hefo hyn yn hollol ddi-lol o un wythnos i'r llall a, hefyd, yn gallu dianc i'r gegin, toc wedi deg, i gael paned efo'r gogyddes sef Pam, Gill neu Jane a Mair, Mary, Maureen a Pat.

Yn yr wythdegau daeth technoleg i'n

hysgolion ac 'roedd pob ysgol yn gyfrifol am ei chyllideb. Trefnwyd cyfres o gyrsiau i benaethiaid a staff gweinyddol ysgolion a bu y ddau ohonom ar nifer ohonynt. 'Roedd y profiad yn agoriad llygad – minnau yn stryglo hefo un bys ar y 'keyboard' ac yn gwneud fy nghorau i ddilyn cyfarwyddiadau y tiwtor ac, wrth fy ochr, yn hollol gartrefol a hyderus o flaen y cyfrifiadur oedd Blod. Dros baned o de dyma un o'r prifathrawon yn gofyn imi os oedd Blod wedi cael profiad yn gweithio hefo cyfrifiaduron o'r blaen. Pan ddwedais nad oedd, 'roedd o wedi syfrdanu a dwedodd, 'Mae hi'n anhygoel – rwyt ti'n b—— lwcus!' 'Roeddwn yn cytuno cant y cant.

Ar wahân i'r ffaith ein bod yn cydweithio'n dda efo'n gilydd 'roeddem yn ffrindiau mawr a pharhaodd y cyfeillgarwch ar ôl iddi ymddeol. Ar ôl gosod y plant ar y bysiau, sgwrs wrth y giât ac, ar ôl imi ymddeol, tŷ Blod oedd y 'pit stop' ar fy ffordd adre' o'r dre. Ac, er fy mod weithiau, ar dipyn o frys 'roedd rhaid cael paned o de a bisged a dwy awr neu fwy wedyn 'roeddwn ar fy ffordd adre. 'Roedd ei chroeso mor arbennig.

Cofiwn, hefyd, am ei chyfraniad gwerthfawr ond di-ffys i Gapel Bethesda dros y blynyddoedd. 'Roedd yn aelod ffyddlon ar llun sydd geni yw o Blod yn eistedd efo'i ffrind agos, Mrs Mair McBurney, yn y gornel bellaf o'r capel ar yr ochr dde.

Ni chlywais neb yn dweud gair cas am Blod – 'roedd pawb yn mwynhau bod yn ei chwmni. Gwyddom fod y blynyddoedd olaf wedi bod yn anodd iddi ac yn enwedig i Delyth a Mair a gweddill y teulu. Ond, 'roedd eu gofal ohoni yn llawn cariad a chonsérn ac 'roedd Blod yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd Blod yw hwn a mae pob un ohonom sy'n bresennol heddiw a nifer sydd, oherwydd amgylchiadau, ddim yn gallu bod yma, wedi bod yn hynod o freintiedig o'i 'nabod ac yn gallu ei galw yn ffrind.

Diolch am y fraint o gael ysgrifennu y deyrnged hon i berson arbennig iawn a gobeithio y bydd y geiriau syml ond didwyll hyn yn rhywfaint o gysur i'r teulu.

Elwyn Roberts

### Wythnos Cymorth Cristnogol

*10 – 16 Mai 2020*

Prin fod diwrnod yn mynd heibio nad ydyw effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar y newyddion. Yma yng Nghymru, rydym wedi wynebu stormydd cryf, gyda llifogydd difrifol yn achosi difrod mawr i gartrefi a busnesau.

Mewn gwlad fel Kenya, fodd bynnag, sychder yw'r broblem fawr, gyda phobl yn gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am ddŵr fydd yn eu galluogi i dyfu cnydau i fwydo eu hunain.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ar Kenya a'i phobl. Eleni bydd yr Wythnos yn edrych yn wahanol iawn i'r arferol oherwydd y Coronafirws. Nid yw'r Wythnos wedi ei chanslo, fodd bynnag. Mae'r gwaith yn parhau er y bydd yn wahanol iawn.

Cawn glywed hanes Rose, sy'n wraig 67 oed ac yn gofalu am ei wyrion. Mae'n gorfod cerdded chwe awr pob dydd i gasglu dŵr. Hebddo, ni all dyfu cnydau a pharatoi bwyd maethlon i'w theulu. Meddai, 'Mae'r sychder wedi bod yn ddifrifol. Rydym wedi cael tri mis hir heb law. Rydym yn dioddef.'

Clywn hefyd gan Florence. Arferai hithau gerdded pellter maith ond ers i'w chymuned godi argae pridd yn ymyl ei phentref gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol, mae ei bywyd hi a'i chymdogion wedi ei drawsnewid. Mae'r sychder lawn mor ddrwg, ond gyda'r argae mae posibl cronni dŵr ar yfer y tymor sych.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyfle i godi arian i helpu mwy o gymunedau tebyg i un Florence – cymunedau sydd ar linell flaen yr ymdrech yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.

Er na fydd y cyfarfodydd arferol ymlaen yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, bydd cyfleoedd gwahanol i gyfrannu tuag at y gwaith. Dyma gyfle arbennig i wneud rhyw-beth dros y tlotaf yn ein byd - y bobl sy wedi cyfrannu lleiaf tuag at yr argyfwng, ond sydd er hynny'n gorfod wynebu'r effaith mwyaf.

Am fwy o wybodaeth am yr Wythnos a'r newidiadau fydd iddi eleni, os gwelwch yn ddaw ewch i'n gwefan: https://www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance

**Eirian Lloyd Jones**

Pa fudiad all gynnig arlwy ddiwylliannnol, iachusol a melus-faethlon o fewn cwta awr mewn un prynhawn? Cymdeithas y Prynhawn wrth gwrs!

Yr arferiad yw cychwyn gydag emyn o ddewis un o'r aelodau – tro hwn - Hywel Wyn Edwards. Yn addas iawn a hithau ond tri diwrnod ar ôl Dydd Gwyl Dewi dewisodd Hywel emyn Lewis Valentine – *Dros Gymru'n gwlad* ——- **.** Er mawr fwynhad i bawb, aeth Hywel ymlaen ac ymhelaethu ar hanes Lewis Valentine yng nghyswllt Eisteddfod Bro Colwyn 1995, a hyd at y mapiwr a'r printiwr crefftus E. Meirion Roberts, Hen Golwyn.

Gwnaeth Meirion Roberts gymwynas fawr ag Eisteddfod Bro Colwyn trwy gynhyrchu gwaith cywrain oedd yn cynnwys geiriau'r emyn. Aeth hynny a ni ymlaen yn naturiol i Eisteddfod Bro Delyn 1991 pryd y cynhyrchodd Meirion Roberts fap yn cynnwys ystod eang o enwogion Sir y Fflint.

Uchafbwynt sgwrs Hywel oedd dangos gwaith gwreiddiol Meirion Roberts ar gyfer Eisteddfod Bro Colwyn. Cyflwyniad personol i Hywel oedd hwn a dyma'r unig un sydd yn bod gyda dyddiad ei gwblhau – Ebrill 1994 - arno. Mae hwn yn grair pwysig, nid yn unig i'r ardal ond i Gymru a mae ym meddiant Hywel.

Cyrhaeddodd Eirian Lloyd Jones gyda llond cawell o samplau a chyda llifeiriant o wybodaeth a chynghorion am atchwanegiadau bwyd - pob un yn llesol inni mewn rhyw ffordd. Amhosibl yw gwneud cyfiawnder â phopeth gafodd ei grybwyll, felly dyma ganolbwyntio ar fwydydd a moddion yr ydym yn gyfarwydd â hwy.

Rhyfedd meddwl fod Hippocrates – tad meddygaeth – yn gyfarwydd â finegr seidr. Mae angen dau organedd byw i droi'r siwgr sydd mewn sudd afal yn finegr sef burum i droi'r siwgr yn alcohol a bacteria i droi'r alcohol yn finegr. Faint wyddai Hippocrates, tua 400 C.C., mewn gwirionedd am yr organeddau yma tybed? A pha rinweddau (honedig) sydd i'r finegr?

Gellir ei gymryd bore, p'nawn a nos – mae'n gwneud i'r stumog deimlo'n llawn ac felly yn gymorth i reoli pwysau. Mae'n lleihau'r asidau brasterog ac yn llosgi'r braster, mae'n arafu amsugnad glwcos i'r gwaed ac felly yn sefydlu lefel siwgr yn y gwaed. Mae iddo lawer rhinwedd arall yn siwr. Nid oes fitaminau ynddo ond mae ychydig bach o haearn

a magnesiwm. Defnyddiai Hippocrates ef i lanhau briwiau oherwydd ei allu gwrth-feicrobaidd a gwrth-heintiol.

Un o ffefrynnau amser brecwast, wrth gwrs, yw uwd. Sut byddwch chi yn ei baratoi – yn y sospan neu yn y meicrodon? Efo dŵr neu efo llefrith? Yna beth fyddwch chi'n daenu drosto – siwgr brown, iogwrt, mel, syrup? Pa ffordd bynnag yr ydych yn ei baratoi, mae'r uwd ei hun yn llesol iawn. Mae'n cynnwys ffibr toddadwy sydd yn gymorth i ostwng lefel cholesterol ac i reoli lefel siwgr yn y gwaed. Mae hefyd yn cynnwys arlliw o elfennau angenrheidiol megis phosphorws, magnesiwm, haearn ac eraill.

Os mai mêl ar eich uwd, neu ar frechdan, neu gyda dŵr poeth a whisgi cyn mynd i'r gwely yw'ch dewis gorau - unfrydol yw'r farn yn siwr mai llesol yw mêl. Siwgr, yn bennaf ydyw wrth gwrs, a honnir ei fod yn felusach na'r siwgr yr ydym yn gyfarwydd ag ef – felly angen llai ohonno, Ar wahan i fod yn ffynhonnell barod o ynni, mae i fêl nifer fawr o rinweddau eraill.

Mae'n wrth-heintiol felly yn dda ar gyfer gwella briwiau.

Mae'n wrthfacteriol yn gallu lladd bacteria anghyfeillgar ond yn faethlon i facteria cyfeillgar sydd yn naturiol yn y corff.

Mae'n wrthocsidiol – yn rhwystro'r broses o ocsideiddio sydd yn achosi difrod i gelloedd y corff.

Nid yw unrhyw drafodaeth ar fêl yn gyflawn heb grybwyll Manuka. Mae hwn yn dod o lwyn o'r un enw sydd yn tyfu yn Seland Newydd, a dyma'r unig wlad ble cynhyrchir y mêl arbennig yma. Ar wahan i feddu holl rinweddau mêl cyffredin, mae cryfder gwrthfacteriol hwn yn arbennig. Mae'r cryfder yn y mêl gorffenedig wedi ei raddio o 1 i 16 a'r pris wedi ei raddio yn gyfesur!

'Roedd paratoadau Hywel wedi ymestyn ymhellach na Lewis Valentine a Meirion Roberts. Yn ogystal ô'r baned de arferol 'roedd bara brith a chacennau cri a mwy gyda thrwch o fenyn ar rai wedi eu paratoi ganddo. Hollol i'r gwrthwyneb i'r hyn yr oeddem wedi bod yn gwrando arno. Mae cydbwysedd yn bwysig!

Hwn fydd yr adroddiad olaf am amser hir felly – cymrwch ofal bob un ohonoch.

## Adolygiad Llyfr Glas Nebo

Mawr oedd disgwyl am y cynhyrchiad hwn ac yn wir roedd Theatr Y Stiwt yn Rhosllannerchrugog dan ei sang a phawb yn aros yn eiddgar i weld y sioe yma. Tybiaf fod mwyafrif oedd yn bresennol eisoes wedi darllen y nofel ac yn llawn chwilfrydedd i weld sut fyddai stori hynod lwyddiannus Manon Steffan Ros yn trosglwyddo i'r llwyfan. Da oedd gweld nifer fawr o wynebau cyfarwydd o ogledd ddwyrain Cymru gyda channoedd o ardal Papur Fama yn cymryd eu seddi. Roedd nifer ohonynt yn teimlo perchnogaeth ar y sioe gan mai Eben James – hogyn ifanc o'r Wyddgrug oedd yn chwarae'r brif ran! - *gweler ei lun ar y clawr.*

Mae llawer o themau yn cael eu gwyntyllu yma – yn bennaf, hiraeth am y gorffennol a'r awydd sydd gan y cymeriadau i ysgrifennu eu hatgofion yn y Llyfr Glas. Hefyd, cyfeirir at lenyddiaeth Cymru drwy ddyfyniadau cyson o feirdd ac awduron. Gwneuddpwyd hyn ar adegau drwy gyfrwng troslais oedd yn symboli'r atgofion personol yn ogystal â'r golled genedlaethol. Mae dewrder a dyfalbarhad hefyd yn themau canolig wrth i'r teulu bach

wynebu sawl argyfwng ingol. Un ohonynt yw marwolaeth y ferch fach Dwynwen, ac roedd hon yn olygfa hynod emosiynol oedd yn cyffwrdd i'r byw.

Roedd dewis y cyfarwyddwr i ddefnyddio pypedau i bersonoli Dwynwen yn un dewr, ac ar y cychwyn, roeddwn yn gweld yr arddull yn rhyfedd. Ond ar ol ychydig, roeddwn yn medru anwybyddu'r pypedwyr oedd yn y cefndir a chredu ynddi. Teimlais bod yr ensemble a oedd yn dyblu cymeriadau ac yn gweithredu'r pypedau (Cet Haf, Leah Gaffey, a Llyr Edwards) wedi ategu llawer i'r perfformiad yma.

Mae trosi nofel yn dasg anodd i unrhyw gyfrwng ar y gore ond peidiwch a cholli'r cyfle i weld y trosiad hwn. Peidiwch disgwyl chwaith y nofel ar lwyfan – addasiad theatrig yw hon ac mae ychwanegiadau a golygu yn anorfod. Llongyfarchiadau i Gwmni Fran Wen ar y gamp enfawr yma ac am lwyddo i ddenu sylw'r genedl gyfan. Gobeithio bydd cystal cynulleidfaoedd ym mhob perfformiad gan unrhyw gwmni theatre Cymreig o hyn ymlaen. Lowri Cynan (Wedi ei olygu)

## Cymdeithas Gorawl Dinbych A'r Cylch

Adeg Nadolig 2018 daeth cyfnod hapus Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch i ben gyda Chyngerdd y Nadolig yn Neuadd y Dref, Dinbych. Fel pob cyngerdd o'r blaen, roedd hwn yn llwyddiant. Ond roedd 'na dristwch hefyd wrth sylweddoli mai hwn fyddai'r tro olaf i ni gyd-ganu o dan arweiniad medrus Beryl Lloyd Roberts ac i gyfeiliant sicr Tim Stuart.

Ffurfiwyd y côr ym mis Medi 2001 yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cylch. Roeddem yn cyfarfod pryd hynny yn y Capel Mawr yn Ninbych ac fe ddaeth dros gant i ymaelodi. Beryl oedd yr arweinydd o'r dechrau ac fe ffurfiwyd pwyllgor yn syth gyda dau aelod o bob llais. Naturiol iawn oedd i Wendy ymgymryd â'r gwaith ysgrifennydd oherwydd ei phrofiad helaeth gyda'r Eisteddfod, a Glyn Jones, cyn-reolwr banc, i ofalu am y cyllid. Fel pwyllgor, y mater cyntaf oedd "Y Cyfansoddiad", a bu llawer o drafodaeth a chynllunio ar hwn, roedd rhaid cael popeth i lythyren y ddeddf. Fe lwyddwyd a phenderfynwyd mai prif amcan y côr fyddai cael mwyniant wrth ddysgu ystod eang o weithiau gan amrywiol gyfansoddwyr. Beryl oedd i ddewis y rhain a pharatoi at ddau gyngerdd bob blwyddyn – Y Nadolig a'r Pasg. Fe wnaeth hyn gyda'r graen arferol. Ei dymuniad oedd rhoi cyfle i gantorion ac offerynwyr ifanc yn ogystal â rhai profiadol i ddod atom i berfformio. Braf yw gweld y rhai ifanc hyn yn llwyddo yn eu gyrfaoedd.

Cawsom gyngherddau i'w cofio a'u trysori, a chefnogaeth dda iawn bob amser. Daeth Neuadd y Dref, Dinbych yn gartref i ni ymarfer ac i lawer cyngerdd. Buom yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy nifer o weithiau a chael canu i gyfeiliant Cerddorfa Siambr sawl tro, oedd yn brofiad gwahanol i gyfeiliant organ neu biano.

Do, fe gawsom lu o brofiadau a sawl her o dan arweiniad Beryl ac fe ddysgom am arddull gwahanol gyfansoddwyr. Roedd Beryl yn berffeithydd yn ei gwaith ac roedd yn disgwyl safon uchel iawn gan y côr ar bob achlysur. Fe weithiodd yn galed ac fe lwyd-



dodd. Mawr yw ein diolch iddi am yr ymroddiad ar hyd y blynyddoedd. Mae colled fawr ar ôl y côr ond fe wnaethom ffrindiau lu a bydded i hynny barhau.

Ar hyd y blynyddoedd roedd ein cyngherddau yn dod ag elw i'r coffrau ac yn ein galluogi i gyfrannu i wahanol elusennau. Codwyd dros £20,000 i gyd a'r elusennau lleol canlynol a elwodd:

Sant Cyndeyrn, Uned Cancr ac Uned Gofal Dwys Ysbyty Glan Clwyd, Uned Llygaid Ysbyty Abergele, Tŷ Gobaith, Gofal Dydd Waungoleugoed a Chronfa Osian.

Fe gyfranwyd hefyd at Ambiwlans Awyr Cymru, Ysbyty Walton, Sefydliad MacMillan a Marie Curie, Cronfa Ron Smith, Cronfa Achub y Plant, Awtistiaeth Gogledd Cymru, Motor Neurone, Tenovus a Rhiwmatoleg.

Gofalwyd am wobrau ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol, Yr Ŵyl Gerdd Dant ac Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn Nyffryn Clwyd.

Erbyn hyn **"diolch yw ein cân"** - i'r holl gantorion am eu ffyddlondeb ar hyd y daith ac am y cyd-weithio hapus a chyfeillgar ar hyd y blynyddoedd. Bu'r pwyllgor yn sefydlog a chytun o'r dechrau a chawsom arweiniad cadarn amrywiol Gadeiryddion. Ar ôl i Glyn, ein trysorydd ymddeol o'r côr oherwydd gwaeledd, daeth Hâf i lenwi'r bwlch a chario mlaen â'r gwaith da hyd y diwedd. Ni ellid fod wedi cael ysgrifennydd gwell na Wendy, a chyda chymorth Dafydd ei gŵr roeddynt yn cadw trefn ar bopeth a pharatoi at bob achlysur – gwaith nad oeddem fel cantorion yn ymwybodol ohono, a hynny gyda gwên bob amser. "Halen y ddaear, y ddau ohonoch"

Roedd trefn i bob ymarfer gyda Beryl a phleser oedd ei gwylio yn dysgu y gwahanol adrannau yn drylwyr cyn dod a'r lleisiau at ei gilydd i gyfeiliant Tim. Roedd y ddau yn deall ei gilydd i'r dim ac roeddem mor ffodus o'u cael. Rhaid oedd cyrraedd y safon uchf bob tro. Braf oedd cael bod yn aelod o'r Côr yma a DIOLCH am yr holl a gafwyd.

# Cymraeg Annisgwyl!

Bydd darllenwyr *Papur Fama* yn hen gyfarwydd gyda diffyg parch cwmni Iceland at y Gymraeg. Mor bell yn ôl â 2008 atebwyd cwyn un ohonoch gan y brif swyddfa i'r perwyl ei fod yn *'proud of its Welsh heritage'*, yn gwahodd *'Welsh speakers to apply for jobs'* a bod ganddo *'a number of colleagues who speak Welsh'*. Felly, braf oedd gweld croeso uniaith Cymraeg bob ochr i gwt y trolis y tu allan i'w siop 'Food Warehouse' newydd ger clwb rygbi'r dref.

Bwydydd wedi'u rhewi yw prif gynnyrch Iceland. Felly nid annisgwyl oedd gweld *'Discover the power of frozen'* mewn llythrennau bras ar un o'r waliau y tu mewn i'r Food Warehouse. Ond mewn llythrennau yr un mor fras gwelir hefyd 'Darganfyddwch rym rhewi'. Ac mae gweddill y broliannau ar hyd y tair wal, megis 'Dewis eang' ac 'O'r fferm i'r fforc', yn hollol ddwyieithog, a'r geiriau Cymraeg wedi'u sillafu'n gywir. Gwahoddwn ein darllenwyr i adrodd am enghreifftiau eraill o'r Iaith ar waith ym mro *Papur Fama*.



# Ysgol Maes Garmon

## Ffarwelio â Blynyddoedd 11 a 13

Yn sgil y newyddion bod ysgolion i gau ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion Cymru, a nad oedd cyfres arholiadau am fod yn yr haf, fe fu i flynyddoedd 11 a 13 treulio eu diwrnod olaf yn yr ysgol ar y 20fed o Fawrth. Bu'n sefyllfa anodd ac emosiynol, a hwythau wedi gwneud cymaint o waith dros yr misoedd diwethaf, ond gyda chymorth y tiwtoriaid a'r penaethiaid blwyddyn, fe gafodd pawb cyfle i rannu atgofion a mwynhau'r amser olaf yng nghwmni ei gilydd. Roedd disgyblion 11A wedi cael y cyfle i agor blwch amser arbennig roeddynt wedi creu yn ôl yn 2015 dan arweiniad eu tiwtor, Mr Iwan Hughes.

Aethpwyd ati i ail-greu llun o'r criw, gan eistedd yn yr union fan, pum mlynedd ar wahân! *(Gweler lluniau, ddoe & heddiw!)* Mae Mr Hughes yn gwisgo'r union un siwmper yn y ddau lun!

Gobeithiwn weld nifer o ddisgyblion bl.11 yn







dychwelyd i'r ysgol er mwyn iddyn nhw gwblhau astudiaethau Lefel A yn yr ysgol, ond hoffwn ddymuno'r gorau i'r rhai sy'n symud ymlaen at brentisiaethau a gwaith, yn ogystal â dymuno pob lwc i'r rhai hynny o fl.13 sy'n mynd ymlaen i astudio yn y brifysgol. Diolch yn fawr i bob un ohonoch am eich cyfraniad i Ysgol Maes Garmon, ac i'r penaethiaid blwyddyn, Mr Aled Owen a Mrs Emma Jones, ynghyd â'r tiwtoriaid dosbarth, am eu gwaith a'u gofal cyson ohonoch. *(Gweler llun o'r criw yn eu crysau gwyn gyda llofnod eu cyfeillion).*





Gweler lluniau o Sophie pan rhoddwyd rhywbeth i'r blwch amser yn ôl yn 2015, a hithau'n estyn ei gwaith o'r blwch yn 2020!

## Eisteddfod yr Urdd 2020

Trueni o'r mwyaf oedd clywed na fydd Eisteddfod eleni, ond yn hollol ddealladwy o dan yr amgylchiadau presennol a'r cyfnod ansicr sydd o'n blaenau. Roedd nifer o ddis-

gyblion wedi dysgu eu gwaith yn barod at yr Eisteddfod Rhanbarth, o'r partion llefaru i'r corau gwerin a merched. Hoffai Mrs Bethan Wyn Jones a Mrs Nia Wyn Jones ddiolch i bawb am eu gwaith caled, a diolchwn i Mrs Bethan Wyn Jones am ei holl waith gweinyddol wrth gofrestru disgyblion. Edrychwn ymlaen yn awr at Eisteddfod Sir Ddinbych 2021!

**Ennillwyr Gwobr Goffa Ann Richardson**

Eleni, dyfarnwyd y wobr arbennig hon i ddau ddisgybl hynod weithgar o fl.11 am eu cynnydd yn eu gwaith Ieithoedd Modern ers dechrau eu cyrsiau TGAU. Llongyfarchiadau anferthol i Sion Goldsmith a Lydia Gilkes am ennill y wobr, dau sydd wedi dangos brwdfrydedd ac ymroddiad tuag at eu hastudiaethau ieithyddol. Bu i nifer o ddisgyblion eraill dderbyn canmoliaeth am y cynnydd wnaethpwyd wrth ddilyn eu cyrsiau TGAU-Ffrangeg:  Elen Jones; Henry Hodges; Harri Walker; Dion Davies. Sbaeneg: Alisha Darts, Elan Roberts, Alice Newbould, Angharad CP, Ben Lewis, Millie Nowell. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

**Ffarwelio â Mr Bryn Jones**

Yn dilyn ei benodiad fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Morgan Llwyd, mi fydd Mr Bryn Jones, Pennaeth yr Adran Ieithoedd Tramor Modern a Phennaeth Blwyddyn 9 yn ein gadael wedi'r Pasg. Bu'n aelod gweithgar a phoblogaidd o'n staff, o fod yn ddyn 'props' pwysig sioeau cerdd amrywiol at drefnydd amryw daith i Ffrainc. Mae unrhyw un sydd wedi bod yn ddisgybl iddo wedi elwa o'i bersonoliaeth heintus a'i frwdfrydedd at gael y gorau o bob dysgwr, ac mae'n golled enfawr i'r ysgol ei fod yn ein gadael. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd a diolchwn iddo am bob dim mae wedi ei wneud i'r ysgol dros y blynyddoedd.

**Y Ddadl Fawr Radio Cymru**

Llongyfarchiadau i Sara Williams, Anna Griffiths a Mari Wyn Jones Bl.12 am gymryd rhan yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Radio Cymru, 'Y Ddadl Fawr'. Cafodd y rhaglen ei darlledu ar Fawrth 22ain ac ar gael ar BBC Sounds. Diolch i Mrs Bethan Wyn Jones am eu helpu wrth i'r genod ddarparu eu sgwrs.

**Trawsgwlad**

Llongyfarchiadau i Lola Rogers, bl. 7 a Theo Hughes bl.11. Mae'r ddau wedi cynrychioli'r Gogledd Ddwyrain yng nghystadeleuaeth trawsgwlad ysgolion Cymru yn Aberhonddu yn ddiweddar.

**Codi Calonnau ar Ddydd Gŵyl Dewi-Ymweliad â'r Bwthyn**

Diolch i griw o ddisgyblion blwyddyn 7-9 aeth draw i'r Bwthyn i ganu caneuon Cymraeg amrywiol i'r preswylwyr er mwyn dathlu dydd ein nawdd-sant. Cafwyd clasuron megis Calon Lân a Moliannwn, at weithiau diweddar megis Anfonaf Angel. Roedd y preswylwyr wrth eu boddau a rhaid canmol pob un disgybl oedd wedi gwneud yr ymdrech i siarad i bob un oedd yno, yn ogystal â pherfformio ambell 'encore'! Diolch enfawr i'r Bwthyn am y gwahoddiad ac am baratoi cacennau Cymreig hynod flasus i'r





disgyblion! *(Gweler ddau llun – y disgyblion yng nghwmni'r ci tywys a'r disgyblion yn canu gerbron y preswylwyr).*

### Llyfr Glas Nebo

Roedd hi'n gyffroes i ddeall bod Eben James, cyn ddisgybl o'r ysgol, wedi ennill rhan bwysig yn nghynhyrchiad Cwmni Fran Wen o Llyfr Glas Nebo, felly yn naturiol, roedd rhaid i'r ysgol ei gefnogi! Diolch i Mrs Iona Scott, Pennaeth yr Adran Gymraeg, a Miss Llinos Haf Jones, cafodd myfyrwyr 6ed dosbarth yr adran Gymraeg fynd draw i Pontio ym Mangor i wylio'r ddrama. *(Gweler llun o Eben James ar glawr y papur).*

### Hoci



Llongyfarchiadau i dîm hoci bl.9-11 am ddod yn seithfed ym Mhencampwriaeth Hoci Cymru dan 16. Mae'r ysgol yn falch iawn o'r ymddygiad a'r ymroddiad arbennig ddangoswyd gennych yn ystod y gemau. *(Gweler llun – y chwaraewyr hoci).*

### Llwyddiannau Addysg Gorfforol Eraill

Llongyfarchiadau anferthol i Catrin Hughes, Bl.13, fu'n Ynys Manaw yn ddiweddar yn cynrychioli tîm dan 21 pêl-rwyd Cymru mewn gemau cyfeillgar efo timau Ynys Manaw. Braf iawn oedd clywed bod Cymru'n fuddugoliaethus ym mhob gêm! Buddugoliaeth gafwyd hefyd pan chwaraeoedd tim hoci bl.7 yn erbyn tîm yr Alun. Y sgôr? 1-0. Da iawn chi, genod! Bu i dîm criced merched o dan 13 oed ennill y pedwaredd safle ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru. Ardderchog! Llonygyfarchiadau i Niamh Carr am ei llwyddiannau diweddar y myd Gymnasteg Artsitig.

### ... ac yn olaf

Dymunai'r ysgol ddiolch i bob rhiant, gwarchodwr a ffrind sydd wedi bod mor gefnogol wrth i'r argyfwng Covid-19 ymledu. Gyrrwn ein cofion at bawb a gobeithio'n wir y bydd modd gweld ein gilydd eto'n fuan. Cadwch yn ddiogel!


**Hysbyseb ar gyfer Cymhorthydd Dosbarth**

Hoffech chi hyfforddi fel cymhorthydd dosbarth yn Ysgol Maes Garmon i weithio yn bennaf gyda disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9?

Rhoddir hyfforddiant a chyfle i ennill cymhwyster cenedlaethol wrth dderbyn cyflog ar yr un pryd.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Mr Dafydd Watson, Rheolwr Swyddfa ar:

01352 750678 neu swyddfa@ymg.siryfflint.sch.uk

Disgwylir i ymgeiswyr fod yn rhugl yn y Gymraeg ac yn frwd dros gefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial.

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

# Y Barcut Coch

**Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond roedd angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml, fe ddaeth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl ynglyn a sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan.**



Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn digon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw yn bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael e allforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow. Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera, Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal yr wythnos yma. Bydd croeso mawr i chi!

Rob Evans

## Cymdeithas Edward Llwyd ar Grwydr

Daeth criw da ynghyd ar Sadwrn Mawrth 14eg i gerdded o gwmpas Ysgeifiog. Harri Hughes o Ddyserth oedd i fod i arwain y daith, ond gan iddo ddod i gysylltiad ar y funud olaf bron a rhywun oedd ag arwyddion o'r feirws corona fe fu'n rhaid i Iwan Roberts Rhuthun arwain. Cawsom daith



hyfryd heibio Llyn Ysgeifiog ac i lawr i warchodfa natur Ddôl Uchaf, ardal lle gwelir carreg go anghyffredin sef Twffa.
Yn naturiol roedd y Feirws ym meddyliau pawb, ac er y tybiem ar y pryd y gallem barhau i gerdded gyda'n gilydd gan ein bod yn yr awyr agored, bu'n rhaid i Gymdeithas Edward Llwyd hefyd bellach wyro i'r drefn a chanslo eu rhaglen am y tro.

Yn y llun gwelir y cerddwyr yn sefyll wrth garreg goffa Wil Callestr (Callestr yw'r gair Cymraeg am Fflint!). Os na fuoch yn ei gweld, yna ewch ar bob cyfri i fynwent yr Eglwys a darllen yr englynion sydd arni.
Dyma ddywed Wicipedia am Wil
Ganed y bardd ym Mhlas Iolyn ger Caerwys, Sir y Fflint yn 1790. Saer melin oedd wrth ei alwedigaeth. Cystadleuai yn eisteddfodau'r cyfnod a daeth yn adnabyddus am ei ffraethineb. Dioddefai amhariad ar ei feddwl, o ganlyniad i oryfed efallai, a diweddodd ei oes yng ngwallgofdy Dinbych lle bu farw yn 1855.
Cyfansoddodd englyn am gath dafarn:

Cath fraith, cath ddiffaith, cath ddu - cath lygod,
Cath Loegr a Chymru:
Cath, cath, cath, ei bath ni bu,
Cath y fall, cei wyth felly.

# Colofn Y Beirdd

Gyda nifer fawr o deuluoedd yn treulio Sul y Mamau ar wahân yn sgil y Firws erchyll, hoffai pwyllgor Papur Fama ddiolch i'r Prifardd Mererid Hopwood am y gerdd arbennig yma sy'n cyfeirio at natur unigryw yr achlysur eleni ac hefyd i Tara Bethan am ei chyfraniad hithau hefyd.

## Nos Sul y Mamau 2020

Rôl diwrnod heb gawodydd
clyw'r dail yn croniclo'r dydd,
mae trydar anghyfarwydd
crin y gwyll am roi croen gŵydd,
a'r haul hwyr am roi ar led
stori yr ailystyried -
addunedau geiriau gwâr,
sibrydion sobri adar.

Y min hwyr hwn, oedwn ni
i ofalus aildafoli;
a bydd, fe fydd ailfeddwl
wedi hyn am ruthro dwl
ddoe ddwethaf; mynd yn ddoethach
hyd y byd, yn araf bach
fydd raid, a rywfodd rhodio'n
dawel iawn ar hyd y lôn.

Ond heno, clychau tyner
cân y Sul sy'n cynnau sêr
un enw all ein cynnal
drwy fyd chwim, di-ddim, di-ddal
ein hofn ni; digyfnewid
yw'r llais all dawelu'r llid -
galwa hi dros bellter gwlad
a chei awr yn ei chariad.

Mererid Hopwood

# Cerrig Cerfiedig Tan-y-Coed

Yn y rhaglen *Cynefin* am Yr Wyddgrug a ddarlledwyd gan S4C ym mis Tachwedd y llynedd, bûm yn siarad am gerrig cerfiedig hynafol ar ben wal derfyn tŷ o'r enw Tan-y-Coed yn stryd Pwll Glas, gyferbyn â'r hen ysbyty. Fe'u rhestrwyd yn Radd II gan CADW, a chredir mai o'r eglwys ganol-oesol bresennol adeg gwaith adfer y 1850au neu o ddwy eglwys cynharach y daethan nhw.



*Rhan o wal derfyn Tan-y-Coed heddiw (llun gan Philip Lloyd)*

Ond er imi siarad yn helaeth amdanyn nhw wrth Heledd Cynwal (ac yn arbennig am un llawer iau na'r lleill) mae'n debyg nad oedd amser gan Gwmni Rondo i gynnwys y cyfan mewn rhaglen amrywiol a barhaodd am lai nag awr. Felly, ar gais y rhai a'm holodd ar ôl y darllediad, dyma'r rhannau o'r sgwrs na chafodd eu dangos – a thipyn mwy.

Ar un adeg roedd 19 o gerfiadau amrywiol ar y wal (wynebau dynol yn bennaf) yn ôl yr ysgrif 'Medieval Carved Stones at Mold' gan y diweddar George Lloyd yn y *Flintshire Historical Society Publication* am 1960. Ond 'diflannodd' tua'u hanner nhw dros y blynyddoedd.

Yna, ryw ugain mlynedd yn ôl ail-osodwyd y gweddill yn gadarn mewn sment gan saer maen lleol, gyda thalpiau o dywodfaen, ffosilau torfol a chwarts crystalog yn llenwi'r bylchau. Roedd gan y saer maen frawd hynod ddawnus fel cerfiwr cerrig. Lluniodd wyneb newydd (yr un barfog ar chwith eithaf y llun cyntaf) i gymryd lle hen un. Mae'n ymddangos mai'r sail i'w greadigaeth oedd y llun o wyneb diflanedig a ymddangosodd yn atodol i ysgrif George Lloyd (yr ail lun i'w atgynhyrchu yma).

### Cerfiad Dau Wyneb



*Y cerfiad a ddau-wyneb coll, fel y bu cyn diflanu.*

Ymhlith y cerfiadau coll eraill roedd un ar ffurf dau wyneb agos iawn at ei gilydd (gŵr a gwraig o bosib, tybiai George Lloyd – yn cysanu?). Fe'i gwelir yn y trydydd llun, Sylwer ar ei safle: yn ymyl wyneb y myharen corniog, sy'n dal yno. Dyma lun arall a ymddangosodd gydag ysgrif George Lloyd yn y *Publication*.

Sut daeth y cerrig cerfiedig hyn i fod ar wal Tan-y-Coed? Yn ôl George Lloyd: gallen nhw fod wedi'u hachub a'u gosod yn rhan o greigfeydd mewn gerddi lleol, yna eu symud i'w lleoliad presennol 'when the [Tan-y-Coed] boundary wall was being constructed some seventy years ago [h.y. tua diwedd yr 19fed ganrif] and placed where their decorative value could be useful'. Gallaf dystio bod eu 'decorative value' yn cael ei werthfawrogi'n aml gan y rhai sy'n tramwyo Pwll Glas.

*Sail tebygol yr wyneb barfog 'newydd'*



**Diolchiadau**

Atgynhyrchir y ddau lun a ymddangosodd yn y *Flintshire Historical Society Publication* gyda chaniatâd Cyndeithas Hanes Sir Y Fflint. Cyhoeddwyd y *Publications* gan y gymdeithas rhwng 1911 a 1976 a'u holynu gan y *Flintshire Historical Society Journal* yn 1978.

# Dehongli Brwydr yr Haleliwia

Yn y rhaglen *Cynefin* am Yr Wyddgrug a ddarlledwyd gan S4C ym mis Tachwedd y llynedd, bûm yn siarad am y dehongliad celfyddydol ynghanol y dref o frwydr Maes Garmon. Yn ôl yr hanes, trechwyd Pictiaid a Sacsoniaid gan lu llawer llai o Frythoniaid drwy weiddi 'Haleliwia' dair gwaith ar orchymyn Garmon Sant.

Ond er imi sôn hefyd wrth Heledd Cynwal am y dylunydd, ei ddehongliad ac am y ffordd mae'r digwyddiad (os digwyddiad) wedi cael ei gofnodi gan haneswyr a theithwyr (ac un tirfeddiannwr lleol) dros y canrifoedd, mae'n debyg nad oedd amser gan Gwmni Rondo i gynnwys y cyfan mewn rhaglen amrywiol a barhaodd am lai nag awr. Felly, a minnau wedi cael fy holi ar ôl y darllediad, adroddaf y darnau coll o'r sgwrs – a thipyn mwy dros-ben.

Dyma ddechrau drwy unioni'r cam â Brian Fell o Glossop, a greodd y pennau metel anferth ar waliau Canolfan Daniel Owen a Llyfrgell y Dref i bortreadu Garmon a rhai o'i filwyr, a'u cegau'n llydan agored dan weiddi'r geiriau tyngedfennol. Rhaid hefyd cydnabod y cydweithrediad a fu rhwng Cyngor y Dref, y Cyngor Sir a chwmni St Modwen (datblygwyr Canolfan Siopa Daniel Owen) i wireddu breuddwyd y dylunydd, gyda Chwmni Datrys o'r Fflint yn cytgordio.

O ran diddordeb: gwaith nodedig arall gan Brian Fell yw'r gofeb i wŷr y llynges fasnach ym Mae Caerdydd, sy'n gyfuniad o gwch drylliedig a wyneb llongwr (i'w gweld drwy gwglo ei wefan).

**Mynach ac Archesgob**

Yr un cyntaf i 'sgrifennu am frwydr yr Haleliwia oedd yr hanesydd Bede ym



Dehongliad Brian Fell o'r Esgob Germanus ac un o'i filwyr (llun gan Philip Lloyd)

mynachdy Jarrow ar lannau Afon Tyne – ryw 300 mlynedd yn ddiweddarach! Tua 731 O.C soniodd yn ei lawysgrif *Historia ecclesiastica gentis Anglorum* [hanes eglwysig cenedl y Saeson] am ymweliad yr Esgob Germanus (Garmon i ni yng Nghymru) o Auxerre a'r Esgob Lupus o Troyes â Phrydain. Eu diben pennaf oedd pregethu yn erbyn heresi honedig Pelagiws am y berthynas rhwng gras Duw a gweithredoedd da dynion. Er i Bede adrodd hanes y frwydr a'i dyddio i'r Pasg yn y flwyddyn 430, mae'n disgrifio'r safle fel dyffryn wedi'i amgylchynu gan fryniau cymharol uchel, ond heb ei leoli.

Yna yn 1639, dyma James Ussher, Archesgob Armagh ac *'All Ireland'*, yn sôn am y frwydr yn ei lyfr *Britannicarum Eccle-*

*siarum Antiquitates* [Hynafiaethau Eglwysi Prydain] ac yn ei lleoli mewn dyffryn a amgylchynnid gan fynyddoedd mewn man a elwid Maes Garmon ger Yr Wyddgrug – ond heb roi dyddiad. Ac er i Brian Fell gydnabod mai chwedl yw'r stori, mae'n ei dyddio i'r flwyddyn 447.

Sul y Pasg yn y flwyddyn 430 a roddir gan Saunders Lewis yn ei ddrama *Buchedd Garmon*. Mae hi'n cynnwys y llinellau anfarwol: 'Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad .... Fel y cadwer i'r oesoedd a ddel y glendid a fu'. Ond pam dadlau am ddyddiad os na ellir cytuno ai am ddigwyddiad go-iawn ynteu am chwedl mae'r stori?

**Hanesydd, Tirfeddiannwr a Theithwyr**

Mae'n bosib mai i Theophilus Evans, a sgrifennodd am y frwydr yn ei *Drych y Prif Oesoedd* (1717), ac i Nehemiah Griffith, sgweiar Rhual, mae'r diolch bod teithwyr yng Nghymru yn ystod yr 18fed a'r 19fed ganrif yn credu mai gwir oedd hanes brwydr Maes Garmon. Yn eu plith roedd Thomas Pennant o Downing ger Treffynnon a George Borrow, awdur *Wild Wales, its People, Language and Society*.


Mentrodd Borrow arni er na fu'n agos i'r Wyddgrug wrth deithio o Wrecsam i Langollen! Ac er iddo gydnabod *Drych y Prif Oesoedd* fel ffynhonnell, ei ddisgrifiad angharedig ohono oedd *'this curious book'*. Yr hyn a wnaeth Nehemiah Griffith (yn 1736) oedd codi piler er cof am y frwydr mewn cae o'r enw'r arwyddocaol 'Maes Garmon' a oedd yn eiddo iddo ac yn rhan o dir fferm Maes Garmon. Cerfiodd yr hanes mewn Lladin ar un o'i dair ochr.

Cyhoeddwyd cyfieithiad o waith Nehemiah Griffith ar ffurf cerdd 14-llinell yn *The Kaleidoscope; or, Literary and Scientific Mirror* am 13 Chwefror, 1827. Mae'n gorffen yn hynod ddramatig (a chynhwysfawr):-

*Loud Hallelujas thrice salute the skies,*
*And bloodless Conquest to the BRITONS yield;*
*They shout triumphant now a Victory gained,*
*Not by force of Arrow but by Faith obtained.*

A rhag ofn i rywun ofyn imi: do – soniais wrth Heledd Cynwal am yr ysgol uwchradd a enwyd ar ôl brwydr Maes Garmon, er na chafodd y rhan honno o'm cyfraniad i'r rhaglen ei darlledu 'chwaith!

Piler Nehemiah Griffith, o Cambria Depicta gan Edward Pugh, 1814 (gyda chaniatâd Aura – hamdden a llyfrgelloedd)



## Cystadlaethau Addurno Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi

Mae'n siwr bod sawl ohonoch wedi sylwi bod rhai o drefi Sir y Fflint wedi bod yn fôr o goch, gwyn a gwyrdd yn arwain at Ddydd Gŵyl Dewi a'r rheswm dros hynny oedd bod nifer fawr o fusnesau yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Addurno Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi Menter Iaith Fflint a Wrecsam.

Mae'r gystadleuaeth wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a braf oedd gweld busnesau yn Yr Wyddgrug, Treffynnon, Y Fflint, Cei Connah a Shotton yn ymuno yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi gan addurno'u ffenestri. Mae'r gystadleuaeth yn annog busnesau lleol i addurno'u ffenestri ar y thema Dydd Gŵyl Dewi gyda'r nod o ddathlu holl bethau Cymerig.

Eleni, cafodd y cystadlaethau eu beirniadu unai gan Feiri'r trefi neu cynrychiolwyr o Gy-ngor Tref y trefi ac nid oedd yn dasg hawdd dod i benderfyniad.

Dyma ganlyniadau'r trefi:

**Yr Wyddgrug:**




1af: Nightingale House Hospice Shop
Cydradd 2il: Mel's Café a Dawnsio Dance
Cydradd 3ydd: Flowers by Anne a Spoons & Fork

**Treffynnon**




1af: 2nd Time Around
Cydradd 2il: The Flower Bowl a Tower Crafts Holywell
3ydd: Shear Envy by Sally

**Y Fflint**

1af: Llyfrgell Y Fflint
Cydradd 2il: Just for you Laundry a Home



Farm Trust/ Siop Elusen NEWCIS
Cydradd 3ydd: Delyn Windows Ltd, Emma's Coutry Choice Florists a Lloyds Pharmacy

**Cei Connah:**




1af: Evergreen Dry Cleaners
Cydradd 2il: Cambrian Aquatics a Quay Café
3ydd: Dragon Trophies

**Shotton:**

1af: Nightingale House Hospice Shop
2il: Cancer Research Uk




3ydd: Kk's Hair & Beauty

Diolch yn fawr iawn i'r holl fusnesau am gystadlu yn y gystadeuaeth ac am eu hymdrechion a diolch hefyd i rai o ddisgyblion Ysgol Croes Atti, Shotton a helpodd i feirniadu'r gystadleuaeth yn Shotton. Llongyfarchiadau mawr i'r buddugwyr a phob lwc i'r holl fusnesau flwyddyn nesaf – gweler yr amrediad o luniau lliwgar sy'n cyfleu hyfrydwch y ffenestri siopau.

**Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi Sir y Fflint**

Eleni bu Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn cydweithio gyda Chyngor Tref y Fflint a rhai o Gynghorau Tref y Sir i drefnu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Yn sicr, fe ddathlwyd Dydd Gŵyl Dewi mewn steil yma yn Sir y Fflint:



**Dathliad Dydd Gŵyl Dewi Y Fflint**

Ar ddydd Llun, 2il o Fawrth, roedd yr haul yn gwenu ar ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi tref Y Fflint. Ers sawl blwyddyn bellach, mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam wedi bod y trefnu'r dathliad yngh nghanol tref Y Fflint o flaen Eglwys Santes Fair ar Stryd yr Eglwys mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref y Fflint.

I gychwyn y dathliadau cafwyd perfformiad



gan Band Cambria ac yna i ddilyn cafwyd perfformiadau â blas Cymreig iddynt gan rai o ysgolion y dref. Diolch o galon i'r disgyblion o ysgolion: Parc Cornist; Pen Coch; Maes Hyfryd; Sir Richard Gwyn a Chroes Atti am eu perfformiadau. Yn cyflwyno'r cyfan roedd Michael Ruggerio (Mic ar y Meic). I gloi'r dathliadau, ymunodd y cymeriadau poblogaidd Magi Ann a'i ffrind Tedi yn y dathliadau ac ymunodd pawb i ganu 'Dwi'n Gymro, 'dwi'n Gymraes', Calon Lân a'r Anthem Genedlaethol.



Roedd hi'n braf iawn hefyd gweld cymaint o'r gymuned leol yn dod allan i wylio'r perffomiadau ac ymuno yn y dathliadau. Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth draw ac i'r gwirfoddolwyr am helpu gyda'r stiwardio yn ystod y digwyddiad. Hoffem hefyd ddiolch y fawr i'r Eglwys Santes Fair a Dewi Sant am y croes a chymorth ymarferol.

**Caffi Dathlu Dydd Gŵyl Dewi Shotton a Cei Connah**

Roedd Neuadd Ddinesig Cei Connah yn orlawn ar fore Dydd Mawrth, 3ydd o Fawrth a hynny ar gyfer Caffi Dathlu Dydd Gŵyl Dewi Shotton a Chei Connah. Trefnwyd y digwyddiad gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref Cei Connah a Shotton.

Daeth disgyblion o ysgolion Cei Connah a Shotton ynghyd a chafwyd perfformiadau â



blas Cymreig gan ddisgyblion Ysgol Croes Atti; Ysgol Tŷ Ffynnon; Ysgol Caernant; Ysgol Bryn Deva; Ysgol Golftyn; Ysgol Wepre ac Ysgol Uwchradd Cei Connah a chafodd y gymuned leol fwynhau paned o de neu goffi tra'n gwrando a gwylio'r perfformiadau hyn.

I gloi'r dathliadau, ymunodd pawb i ganu 'Dwi'n Gymro, 'dwi'n Gymraes', Calon Lân





a’r Anthem Genedlaethol. Dyma’r tro cyntaf i’r digwyddiad yma gael ei gynnal yng Nghei Connah a roedd yn hynod braf gweld cymaint o gefnogaeth yn lleol i’r digwyddiad. Rydym yn mawr obeithio y bydd dathliadau o’r fath yn mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd nesaf ac y cawn eich cwmni yn y dathliadau flwyddyn nesaf.

**Apiau Magi Ann**

Gyda’r ysgolion yn cau am gyfnod amhenodol, cofiwch bod apiau Magi Ann ar gael i’w lawrlwytho am ddim oddi ar Storfa Apiau ios ac Android. Mae 6 app i gyd a rhain i gyd yn cynnwys straeon lliwgar a gemau hwyliog i helpu plant i ddysgu darllen yn y Gymraeg!

**Gohurio Gweithgareddau’r Dyfodol**

Fel yr ydych yn gwybod oherwydd y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran feirws COVID - 19 mae nifer fawr o ddigwyddiadau wedi eu gohirio/ canslo yn ystod mis Mai. Oherwydd hynny rydym o’r farn y byddai’n well i gynnal Mis Iaith ar Daith (Mai) eleni yn ystod mis Hydref gan obeithio y bydd pethau yn ôl i



normalrwydd erbyn hynny. Fe fyddai hynny hefyd yn ein galluogi i gynnwys ambell ddigwyddiad sy eisoes wedi cael eu hail-drefnu ar gyfer mis Hydref gan gynnwys Focus Wales a Gig Al Lewis yn Theatr Clwyd, ac wrth gwrs mae Gŵyl Daniel Owen bob amser yn cael ei chynnal yn Yr Wyddgrug ym mis Hydref hefyd.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi drwy ein cyfryngau cymdeithsol dros wythnosau nesaf a'ch diweddaru'n syth a mor rheolaidd a phosib os oes unrhyw ddatblygiadau pellach. Mae hefyd croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio'n staff yn uniongyrchol, e-bostio ein e-bost cyffredinol: gwybod@menterfflintwrecsam.cymru neu ffonio'r rhif canlynol: 07578 716 081. Ni fydd modd i chi gysylltu â ni drwy ffonio ffôn y swyddfa am y tro.

Cadwch yn saff! Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth.

## Colofn y Beirdd II

### Mam Natur

A'i ni na wrandawodd?
Na ddewisiodd dy warchod?
Na ddealltodd dy dyner anrhegion,
Dy dawel ddiffygion.
A'i hon yw dy gri
Am dy hunaniaeth bur?
Na fyth yr haeddom
Na fyth fu berchen i ni?

Tara Bethan

Hill & Roberts
CHARTERED ACCOUNTANTS
CYFRIFWYR SIARTREDIG

Am wasanaeth proffesiynol a lleol:

- Cyfrifon busnes a chwmni
- Treth incwm a hunanasesiad
- Treth Ar Werth (ar-lein)
- Cyflogau a Thalu Wrth Ennill (ar-lein
- Treth etifeddiaeth ac enillion cyfalaf
- cyngor busnes

50 Stryd Fawr, yr Wyddgrug, CH7 1BH
Ffôn: 01352 700086
E-bost: Ffion@hillandroberts.co.uk

**Gwasanaeth Gwarchod Plant**
Cysylltwch gyda Erin Siân Williams.
Gofalgar, hawddgar ac hyderus
07484 652792 (neu)
01352 757874



Ar gael gyda'r nos neu yn ystod gwyliau ysgol a phenwythnosau

**J.E.DAVIES A'I FAB**
**TREFNWYR ANGLADDAU** Edward Davies Dip.F.D
CWMNI TEULUOL PREIFAT SEFYDLWYD DROS 1OO MLYNEDD
**CERRIG BEDDAU - DELYN MEMORIALS**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffynnon y Cyff<br>Licswm<br>Treffynnon<br>01352 741265 | 90 Stryd<br>Wrecsam<br>Yr Wyddgrug<br>01352 700155 | 50 Stryd Fawr<br>Cei Connah<br>01244 831774 | Stryd Fawr<br>Bagillt<br>01352 732146 | 1-3, Stryd<br>Helygain<br>Y Fflint<br>01352 733833 | 163 Ffordd Yr<br>Wyddgrug<br>Bwcle<br>01244 548197 | 2, Stryd<br>Helygain<br>Treffynnon<br>01352 712203 |

**CEIR PRIODAS - ROLLS A DAIMLER**

YN SEFYLL DROS Y GYMUNED A'M FFURFIODD

**Hannah Blythyn AC**

**Aelod Cynulliad dros Delyn**




Welsh Labour Llafur Cymru

Hannah4Delyn @HannahBlythyn hannah.blythyn@assembly.wales

01352 762102 hannahblythyn.wales 38 Stryd yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AE



Plaid Cymru | Party of Wales

# Llyr Gruffydd AC



**Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:**

Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Canolfan Fusnes Birch House
Rhuthun
LL15 1NA
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

@LlyrGruffydd

www.llyrgruffydd.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales



abc amser babi Cymraeg
activities for baby in Cymraeg

07484 88 35 30 neu/or

Mwy o wybodaeth gan Bethan will share more info


## Cofiwch anfon eich newyddion, hanesion, hysbysebion a lluniau at:-

*papurfama@hotmail.co.uk*

## ENWAU a RHIFAU FFÔN GOHEBWYR PAPUR FAMA

**LICSWM**
Nesta Davies
01352 741597
Elfed ap Nefydd
01978 290671

**TREUDDYN**
Mary Roberts
01352 770219

**NERCWYS**
Lis Jones
01352 771542

**BWCLE**
Rhiannon Jones
01244 545298

**CAER**
Gwenllian Magee
01244 335946

**SYCHDYN**
Elen Jones
01352 757112

**GWERNYMYNYDD**
Catherine Richards
01352 757469

**Y FFLINT**
Margaret Jones
01352 732300

**PENTRE MOCH**
Adrienne Allen
01244 821286

**COEDTALON A CHOEDLLAI**
Gareth a Carys Hughes
01352 771244

**CILCAIN**
Keith Redfern Humphreys
01352 742250

**MERCHED Y WAWR**
Mair Selway
01352 758407

**CAPEL BETHESDA**
Enid Young
01352 756365

**CAPEL PENDRE**
Bryn Jones
01352 700440

**CAPEL Y WAUN**
Eirlys Gruffudd
01352 754458

**BOBOL BACH**
Nia Ellis
Gwern y Marl
Ffordd Rhosesmor
Llaneurgain
CH7 6AG niaangharad@hotmail.com

**LLEISIAU LLENYDDOL**
Awen Powell
[01352] 752468
powell@makuti.fsnet.co.uk

## TANYSGRIFIO MEDI 2018-GORFFENNAF 2019

I dderbyn Papur Fama trwy'r post anfonwch y ffurflen isod i'r POSTMON erbyn **Medi 1 af** naill gyda siec am £13 yn daladwy i "Papur Fama " neu trefnwch Ddebyd Uniongyrchol o £13 i " Papur Fama", Banc Barclays Yr Wyddgrug, côd cangen 20-25-69, rhif y cyfrif 90720801. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Papur.

### FFURFLEN TANYSGRIFIO

**Papur Fama Medi 2018-Gorffennaf 2019**

**Taliad** Amgaeaf siec neu rwyf wedi trefnu Debyd uniongyrchol.

**Enw** ..............................................................................................

**Cyfeiriad** ..............................................................................................

..............................................................................................

..............................................................................................

**Côd Post** ..............................................................................................

**Ffôn** ..............................................................................................

**Dychwelyd** Aled & Helen Jones Ardwyn, 18 Rhodfa'r Mynydd, Yr Wyddgrug CH7 1GQ




Gan na fyddwn yn cyhoeddi Papur Fama tan ar ôl y gwyliau haf, yr ydym yn dymuno Pen-blwydd Hapus iawn i bawb fydd yn dathlu eu penblwyddi yn ystod y misoedd nesaf gan obeithio y bydd pob un ohonoch yn mwynhau y dathliadau yng nghwmi eich teulu agos.

**Ebrill**

Taidhg Dafydd Wiegand, 10
Nansi Elin Davies, 10
Betsan Malen Roberts, 9
Gwenno Williams, 7
Rhydian Hayward, 5

**Mai**

Huw Cavan Davies, 10
Anna Fflur Thomas, 10
Ava-Gwen Reeves, 9
Erin Mai Wynn-Davies, 9
Lily Efa Smith, 8
Hana Rose Liversage, 5

**Mehefin**

Rhian Maisie Antrobus, 11
Lewys Mitton, 10
Casi Ela Wynn-Townley, 7
Awen Hogg , 7
Elain Hâf Wynn-Jones, 6

**Gorffennaf**

Erin Rhys Parkes 11
Cai Tudur Morris 10
Lowri Haf Povey Jones 9
Olifia Rebecca Owen 8
Anni Haf Morris 6

**Awst**

Beca Marged Hogg 11
Elis Meilir Staples Ashford 7
Megan Morfudd Smith 7
Elen Lucy Edwards 8




mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

cylch ti a fi

Cylchoedd Ti a Fi Yr Wyddgrug: yn rhedeg yn ystod tymor ysgol rhwng 9.30 a 11.30: Dydd Llun-Capel Bethesda, Dydd Mercher-Canolfan Gymunedol Park fields, Dydd Gwener-Capel Bethesda

£2 y sesiwn am baned, crefft, snapyn a sesiwn canu.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Gwen ar 07821756074.

## CLWB Y BOBOL BACH

*Llenwch y ffurflen isod a'i hanfon at y cyfeiriad isod gydag 20c i fod yn aelod o Glwb Bobol Bach.*

**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**Dyddiad Geni:**

**e-bost:**

*Cyfeiriad newydd Bobol Bach –* Gwern y Marl Ffordd Rhosesmor Llaneurgain CH7 6AG niaangharad@hotmail.com

9 772042 575006